

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol
2023 - 2024



RHONDDA CYNON TAF



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg
2023–2024

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ebrill 2024

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
Uned y Gwasanaethau Cymraeg	5
Gwaith sy'n parhau	7
Prosiectau ac Ymgyrchoedd o'r Newydd	11
Cwynion	14
Sgiliau Cymraeg Staff: Safon 170(2)(a)	23
Hyfforddiant ar Gyfer Staff: Safon 170 (2)(b) ac (c)	24
Llenwi Swyddi Gwag: Safon 170 (ch)	24
Rhagor o wybodaeth	24
Atodiad 1 – Hunanwerthusiadau Gwasanaethau 2023-2024	25

Cyflwyniad

Safonau'r Gymraeg

Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Yn dilyn ystyriaeth ac ymgynghori pellach, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na ddylid cymhwyso unrhyw gamau i 9 o'r Safonau oedd yn destun her ac y dylid cymhwyso amrywiad i 5 o'r Safonau oedd yn destun her. Cafodd yr Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Medi 2016. Mae modd ei weld yn llawn yma.

Gweledigaeth

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal â gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â gofynion Safonau'r Gymraeg, bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau yn unol â holl bolisiau a strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg. O 2024 ymlaen, bydd Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor yn cynnwys y Gymraeg ymhlith ei brif flaenoriaethau, er mwyn sicrhau bod cynllunio ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg a pharchu hawliau staff a thrigolion i ddefnyddio'r iaith yn cael sylw ar y lefel strategol uchaf bosibl.

Llywodraethu ac Atebolrwydd

Yn 2022, sefydlodd y Cyngor Is-bwyllgor Cabinet ar Faterion y Gymraeg. Mae'r pwyllgor yn cynnwys 5 aelod o'r Cabinet. Mae'r is-bwyllgor, a ddisodlodd **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg**, wedi ei sefydlu i sicrhau dull Awdurdod-gyfan wrth gyflenwi gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn benodol y Safonau statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r is-bwyllgor yn un sy'n gwneud penderfyniadau, felly mae modd gwneud penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn lleol, heb orfod ceisio cymeradwyaeth pwyllgor llawn y Cabinet. Mae'r aelodau hefyd yn darparu cyfeiriad strategol o ran rhoi'r ddeddfwriaeth neu'r polisiau yma ar waith, ynghyd ag unrhyw bolisiau lleol ynglŷn â'r Gymraeg, a chefnogi Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i gyflawni ei dyletswyddau. Yn ogystal â hynny, mae Pwyllgor Trosolwg a Chraffu trawsbleidiol y Cyngor yn craffu ar Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg a Strategaeth 5 Mlynedd Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg a'r cynnydd yn ei herbyn lle bo hynny'n briodol.

Dolenni cyswllt i Bolisiau a Blaenoriaethau'r Cyngor

Mae ymrwymïadau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnwys ym mhrif ddogfennau sefydliadol yr awdurdod gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol 2020-24 (Gwneud Gwahaniaeth) a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yn ogystal â hyn, mae polisiau mewnol, megis polisiau Adnoddau Dynol, yn prif ffrydio materion y

Gymraeg sy'n fwy effeithiol na pharatoi polisïau unigol i fynd i'r afael â materion y Gymraeg. Mae blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu llywio gan ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2016, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i gryfhau'r Gymraeg. Mae'r ddeddf gyntaf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod llesiant. Un o'r rhain yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Bydd Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor, i'w weithredu o 2024 ymlaen, yn cynnwys y Gymraeg fel un o'i brif flaenoriaethau, gydag un o'i bedair thema yn cwmpasu 'Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg'. Bydd hyn sicrhau bod y Cyngor yn ymrwymo ymhellach i nodau'r ddeddf hon, ac yn cyfrannu'n llawn i sicrhau gwaddol i Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd 2024 ar draws y fwrdeistref sirol. Mae'r ail Ddeddf yn gofyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ystyried anghenion ieithyddol eu defnyddwyr wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Rhoi Adroddiad

Dyma'r wythfed flwyddyn lawn o roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r adroddiad yma, a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 30 Mehefin, yn bodloni Safonau 158 a 164 ac yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau Atodol canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safonau Gweithredu
- Safonau Llunio Polisïau

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol fel a ganlyn:

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg (Safon 151).
- nifer y staff a fynychodd y cyrsiau hyfforddi a restrir yn Safon 128 os cawson nhw eu cynnig yn Gymraeg (Safon 152).
- canran cyfanswm y staff a fynychodd unrhyw gyrsiau a restrir yn Safon 128 (Safon 152).
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi sy'n nodi (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y bydd rhywun yn cael ei benodi i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol (Safon 154).
- nifer y cwynion y derbyniodd y Cyngor (Safon 150).

Uned y Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i Safonau'r Gymraeg oherwydd y risgiau sydd ynghlwm â pheidio â chydymffurfio â nhw a hefyd oherwydd ei ymrwymiad i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor ac i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'n cydnabod bod angen cefnogaeth y Cyngor cyfan i allu cynnig a hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg o'r cyswllt cyntaf.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned Gwasanaethau Cymraeg gadarn sy'n cynnwys carfan o 13 gyfieithwyr, tîm o swyddogion polisi, tiwtor Cymraeg, swyddog yr Eisteddfod Genedlaethol, a staff gweinyddu a rheoli. Mae'r Uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u cyfrifoldebau statudol o dan y Safonau
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- darparu tiwtor Cymraeg mewnol
- nodi meysydd lle mae diffyg cydymffurfiaeth posibl
- cofnodi cwynion cwsmeriaid
- adrodd ar ddatblygiadau i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg
- cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ac mewn cyfarfodydd eraill sy'n agored i Aelodau (e.e. pwyllgorau craffu)
- rhoi cymorth cyfieithu ar y pryd i bob maes gwasanaeth arall fel gwasanaethau cyfreithiol, adnoddau dynol, addysg
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg yn y gymuned fel sy'n briodol
- cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd allanol a bod yn brif gyswllt â Chomisiynydd y Gymraeg ac Adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru
- cynnig cymorth ar draws adrannau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol
- cydlynu a chysylltu â materion sy'n ymwneud â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- cydlynu a chysylltu â Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru
- rhoi cefnogaeth bwrpasol i Eisteddfod Genedlaethol Cymru sydd i'w chynnal yn RhCT yn 2024
- darparu cymorth yn rhan o Fwrdd Llywodraethu swydd Pencampwr Addysg Cymraeg De-Ddwyrain Cymru, sydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru
- arwain ar ddarparu cyngor polisi'r Gymraeg a chydymffurfio i Gydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned fel ymateb rhagweithiol i'r amgylchedd statudol a'r math o waith y mae angen ei wneud i geisio cynorthwyo holl wasanaethau'r Cyngor i fodloni'r Safonau mewn modd mwy cost-effeithiol.

Mae Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi a Swyddog Cymorth Cydymffurfio yn monitro cyflawniad y gwasanaethau ar draws y Cyngor ac yn sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Safonau hynny sy'n berthnasol iddyn nhw. O ganlyniad i hyn, mae'r rolau yn rhoi cyfle i'r Cyngor ddarparu cymorth lliniaru pellach i wasanaethau wrth nodi unrhyw wendidau posibl yn y gwaith i fodloni gofynion y Safonau, yn ogystal â pharhau â rhai o ddyletswyddau mwy traddodiadol hen swydd Swyddog y Gymraeg. Mae'r swyddi cymharol newydd hyn wedi'u gwreiddio yn Uned y Gwasanaethau Cymraeg, a'r Cyngor yn ehangach erbyn hyn. Er enghraifft, mae'r Uwch Swyddog Cydymffurfio

a Pholisi yn cydweithio'n rheolaidd â swyddogion cydraddoldeb, swyddogion data a swyddogion cyflawniad corfforaethol y Cyngor i asesu effaith polisiau, paratoi teclyn data cynhwysfawr i swyddogion y Cyngor ei ddefnyddio, a monitro cyflawniad holl adrannau'r Cyngor yn erbyn Safonau'r Gymraeg. Mae'r Swyddog Cymorth Cydymffurfio hefyd wedi aildddechrau gweithgarwch awdit yr Uned a oedd wedi'i oedi yn ystod cyfnod Covid-19. Hyd yn hyn mae wedi cynnal awdit cynhwysfawr o adrannau mwyaf poblogaidd gwefan y Cyngor, ac awdit o holl dderbynfeydd y Cyngor, i sicrhau cydymffurfiaeth ar lefel gorfforaethol. Bydd y Swyddog Cymorth hefyd yn gweithio fel swyddog cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau o ddydd i ddydd parthed y Safonau a materion eraill o ran y Gymraeg gan staff Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru. Eto eleni, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn hael o ran rhoi adborth cadarnhaol am y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyflawni'i ddyletswyddau o ran y Safonau.

Mae Tiwtor y Gymraeg rhan-amser hefyd yn trefnu a chyflwyno cyrsiau a sesiynau dysgu Cymraeg i holl weithwyr y Cyngor. Yn y gorffennol, bu'r Cyngor yn talu darparwyr allanol (e.e. Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru) i gynnal sesiynau i staff mewnol ond doedd y rhain ddim yn llwyddiannus gan nad oedden nhw'n berthnasol i'r meysydd gwasanaeth priodol. Hyd yn hyn (31 Mawrth 2024), mae'r tiwtor mewnol wedi dysgu 94 aelod o staff, gan gynnwys Cynghorwyr, yn 2023/24 ar wahanol lefelau. Mae hyn ar ben y staff sydd wedi cwblhau Cymraeg Lefel 1, sydd erbyn hyn yn gwrs ar-lein. Eleni, mae'r Tiwtor yn paratoi cwrs Lefel 1 penodol ar gyfer staff arlwyyo sydd heb fynediad i'r adnodd ar-lein, er mwyn sicrhau bod cymaint o staff â phosibl yn gallu manteisio ar yr hyfforddiant. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phrosiect Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru gan sicrhau bod modd i staff y Cyngor fanteisio ar gymorth a thiwtora ar-lein. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor, ar nifer o achlysuron, wedi cefnogi unigolion i gyflawni cwrs preswyl am wythnos yn Nant Gwrtheyrn ac yn parhau i annog meysydd gwasanaeth i gefnogi dysgu trwy ddosbarthiadau yn y gymuned. Er mwyn paratoi ar gyfer staffio stondin y Cyngor yn Eisteddfod Genedlaethol RhCT 2024, bydd 10 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn mynychu cwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn ym mis Ebrill 2024, i'w helpu i fagu hyder wrth siarad Cymraeg â'r cyhoedd yn ystod y Brifwyl.

Mae cyfieithwyr Uned y Gwasanaethau Cymraeg yn gwneud cyfraniad anhepgor i ymdrechion y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, trwy ddarparu gwasanaethau cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd o'r radd flaenaf i holl adrannau'r Cyngor yn ôl y gofyn. Erbyn hyn mae gan yr uned Flaen Gyfieithydd sy'n rheoli'r gwaith cyfieithu a phrawf ddarllen o ddydd i ddydd, pedwar Uwch Gyfieithydd sy'n canolbwyntio ar waith y Gwasanaethau Democraataidd ac yn darparu cymorth prawf ddarllen, ac wyth cyfieithydd. Er mwyn cydnabod arbenigeddau amrywiol y staff cyfieithu presennol a darpar staff, anghenion y Cyngor, a darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol, mae swyddi uwch gyfieithydd a chyfieithydd bellach wedi'u rhannu'n swyddi cyfieithu testun yn unig neu'n swyddi cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd – mae tri uwch gyfieithydd a thri chyfieithydd hefyd yn gyfieithwyr ar y pryd o dan y trefniant hwn ar hyn o bryd, a gallai'r sawl sydd yn gyfieithwyr testun weithio tuag at ddod yn gyfieithydd ar y pryd yn rhan o'u datblygiad proffesiynol pe dymunent. Dau o'r uwch gyfieithwyr ar y pryd sy'n cydlynu'r elfen hon o ddatblygu proffesiynol i'r staff eraill, a hynny yn sgil y ffaith eu bod nhw wedi graddio â thystysgrif ôl-raddedig mewn cyfieithu ar y pryd. Eleni, mae trydydd uwch gyfieithydd wedi cychwyn ar y dystysgrif ôl-raddedig mewn cyfieithu ar y pryd hefyd er mwyn sicrhau bod yr uned yn parhau i

ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf bosibl. I'r perwyl hwn hefyd, mae'r blaen gyfieithydd a'r uwch gyfieithwyr wedi mynychu hyfforddiant ar gywiro a chynnig adborth ar waith cyfieithwyr llai profiadol, sydd hefyd wedi cyfrannu at eu datblygiad proffesiynol hwy a'r cyfieithwyr y maent yn prawf ddarllen gwaith ar eu rhan.

O ran y gwasanaeth mae'r uned gyfieithu yn ei darparu, mae 2023/24 wedi gweld sawl datblygiad cadarnhaol. Yn dilyn symud pencadlys y Cyngor o Gwm Clydach i Bontypridd, bu'r uwch gyfieithwyr ar y pryd yn rhoi cymorth i'r Gwasanaethau Democrataidd wrth sefydlu'r system cyfieithu ar y pryd newydd yn Siambr newydd y Cyngor, er mwyn sicrhau y profiad gorau posibl i'r sawl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd yno. Yn sgil gwaith archwilio swyddogion polisi'r uned i arferion gwahanol adrannau'r Cyngor wrth gynnal cyfarfodydd, a'r ffaith bod ymwybyddiaeth staff o'r angen i gynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog wedi cynyddu o ganlyniad i hyn, mae'r uned gyfieithu wedi derbyn sawl cais i gyfieithu ar y pryd gan adrannau sydd prin wedi defnyddio'r gwasanaeth o'r blaen. Yn ogystal â hynny, wrth gynnal sesiynau 'Bitesize' ar Safonau'r Gymraeg i staff ledled Cyngor, cynhaliwyd 3 sesiwn yn benodol ar gyfieithu, er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gwasanaeth a sut i'w defnyddio, ac i bwysleisio pwysigrwydd cyfieithu proffesiynol a sicrhau amser ar gyfer trosi wrth gynllunio gwaith.

Gwaith sy'n parhau

Dyma grynodeb o ddatblygiadau yng ngwaith parhaus yr uned, yn ystod 2023/24:

Asesu Effaith ar y Gymraeg

Cyflwynodd y Cyngor ei Fframwaith newydd ar gyfer Asesu Effaith ar y Gymraeg yn 2021-22, ac ers hynny, mae'r broses newydd wedi dechrau gwreiddio'n gadarn yn rhan o waith craffu ar benderfyniadau yn y sefydliad. Mae Uwch Swyddog Cydymffurfio a Swyddog Cymorth Cydymffurfio yn gweithio gyda swyddogion ar draws y Cyngor yn feunyddiol yn darparu cymorth iddynt ar y modd y gallai eu cynlluniau arfaethedig effeithio ar y Gymraeg a'i siaradwyr yn y gymuned a'r gweithle, ac i ddatblygu mesurau i wneud y mwyaf o unrhyw effaith gadarnhaol a lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol. Yn ogystal ag adborth ysgrifenedig a chyfarfodydd anffurfiol, bob mis cynhelir Panel Asesu Effaith. Ymhlith aelodau'r panel mae swyddogion cydymffurfio, uwch swyddogion annibynnol o adrannau'r Cyngor, ac aelodau'r uwch dîm rheoli. Mae hyn nid yn unig yn gyfle ychwanegol i fireinio'r asesiad effaith gyda chymorth swyddogion hynod profiadol, ond mae'n sicrhau bod y broses asesu effaith yn hysbys ac yn cael blaenoriaeth ym mhob maes gwasanaeth ac ymhlith cyfarwyddwyr y Cyngor hefyd, sy'n golygu bod ei phwysigrwydd yn rhaeadru trwy'r sefydliad.

Mae'r effaith hon i'w weld yn natur y gweithgarwch ychwanegol yn y maes hwn ar draws y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn rhan o gyfres o sesiynau 'Bitesize' ar Safonau'r Gymraeg a materion cysylltiedig i staff, cynhaliwyd sesiynau ar Asesu Effaith ar y Gymraeg, a fynychwyd gan 50 aelod o staff ar draws y Cyngor. Gydag arweiniad oddi wrth y Gwasanaethau Gymraeg, ym mis Ionawr 2024, cyflwynodd yr adran Adnoddau Dynol ddiweddariad i'w phrosesau Rheoli Newid, sydd nawr yn cynnwys adran benodol ar gyfer asesu unrhyw effaith ar y Gymraeg a allai ddod o ganlyniad i newidiadau o ran staffio. Mae'r adran hon yn gofyn i reolwyr nodi pa effaith y bydd unrhyw newidiadau yn ei chael ar allu'r maes gwasanaeth i ddarparu

gwasanaethau yn y Gymraeg a bodloni Safonau'r Gymraeg, a sut y byddant yn parhau i wneud hyn wedi'r newid heb ddibynnu'n ormodol ar y gwasanaeth cyfieithu neu siaradwyr Cymraeg o wasanaethau eraill. Mynychodd swyddogion Uned y Gwasanaethau Cymraeg gyfarfod o brif swyddogion yr adran er mwyn cynnig arweiniad pellach iddynt yn y maes wrth iddynt ddechrau rhoi'r broses newydd ar waith yn y meysydd gwasanaeth maent yn gyfrifol amdanynt. Yn ogystal â hynny, bu nifer o uwch swyddogion a chyfarwyddwyr y Cyngor yn mynychu sesiynau Comisiynydd y Gymraeg ar Asesu Effaith ar y Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Mae hyn oll yn dyst i'r ffaith bod y Cyngor yn rhagweithiol wrth asesu effaith ar y Gymraeg, a bod y broses hon yn cael blaenoriaeth amlwg ar draws y sefydliad.

Gyda hynny mewn golwg, mae Uned y Gwasanaethau Cymraeg yn diweddarau'i dogfen Canllaw ar gyfer Asesu Effaith ar y Gymraeg yn gyson, a'r bwriad ar gyfer 2024/2025 yw ei diwygio'n llawn, ynghyd â'r Erfyn ar gyfer Asesu Effaith ar y Gymraeg. Bydd y fersiynau diwygiedig hyn yn tynnu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod y tair blynedd gyntaf o weithredu'r fframwaith newydd, yn ogystal ag adborth gan y sawl sydd wedi cyflawni asesiadau effaith yn ystod y cyfnod. Bydd hefyd yn gyfle pellach i'r Uned gyfathrebu negeseuon pwysig o du gwaith y Comisiynydd yn y maes hwn, trwy gyhoeddiadau i staff am yr adnoddau newydd a sesiynau hyfforddi pellach.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032

Mae'r Uned wedi parhau i gefnogi'r gwaith o gydlyn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a chymorth cysylltiedig ar gyfer pennu'r cynllun gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf, a'r is-grŵp marchnata.

Strategaeth 5 Mlynedd ar gyfer Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-2027

Ers cymeradwyo'r [Strategaeth newydd ar gyfer Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg](#) a'r [cynllun gweithredu cysylltiedig](#) yn ystod 2022-2023, mae adrannau'r Cyngor yn parhau i weithredu'r camau a'r blaenoriaethau a nodwyd. Er y darlun siomedig ar draws Cymru yn ôl ffigyrau Cyfrifiad 2021, roedd y sefyllfa'n fwy addawol yn Rhondda Cynon Taf ei hun, lle y bu cynnydd o 2.8% yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg, o 27,779 i 28,556. Mae'r cynnydd hwn yn dyst i gyfraniad ac ymrwymiad staff y Cyngor a'i aelodau etholedig i wella gwasanaethau a bodloni targedau. Mae'r strategaeth newydd yn ceisio adeiladu ar y llwyddiant hwn, ac yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr yn RhCT o 5%. Ym mis Mehefin 2024, byddwn yn dechrau ar y gwaith o asesu'r cynnydd hyd yma yn erbyn y strategaeth newydd a'i gynllun gweithredu cysylltiedig gan gyflwyno adroddiad i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ym mis Hydref.

Cymraeg Lefel 1

Yn ystod 2021/22 a 2022/23, oherwydd newidiadau i system feddalwedd Adnoddau Dynol y Cyngor, roedd oedi o ran gallu gweithredu ar ddata sgiliau iaith gweithwyr newydd y Cyngor. Roedd hyn yn golygu nad oedd modd darganfod pa staff oedd yn dechrau ar eu swyddi newydd heb fodloni'r maen prawf hanfodol o feddu ar sgiliau Cymraeg Lefel 1, a'u cofrestru ar gyfer cwrs Cymraeg Lefel 1 y Cyngor i'w gwblhau yn rhan o'u cyfnod prawf, fel oedd arfer digwydd yn fisol. Roedd y cwrs dal ar gael yn ystod y cyfnod hwn, ond roedd cofrestru unigolion yn dibynnu'n llwyr ar

ymwybyddiaeth eu rheolwr, yn hytrach na derbyn gwahoddiad ffurfiol gan y Gwasanaethau Cymraeg. Serch hynny, ers dechrau 2024, mae'r data bellach ar gael, ac yn gynnar yn 2024/25 bydd swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg yn mynd ati i roi system ar waith o wahodd aelodau staff newydd perthnasol i gwblhau'r cwrs yn ystod eu cyfnod prawf o hyn allan. Byddan nhw hefyd yn gweithredu cynllun arall i sicrhau bod y sawl na chafodd y cyfle yn ystod y blynyddoedd blaenorol yn cwblhau'r cwrs hefyd.

Dysgu Cymraeg

Eleni gwelwyd y bedwaredd ymgyrch ffurfiol, integredig i annog staff i ddysgu Cymraeg yng Nghyngor RhCT. Yn ystod haf 2023, cafodd ein poster a llyfryn gwybodaeth yn hysbysebu'r holl ddarpariaeth gymunedol a rhithwir eu hanfon at holl staff y Cyngor. Yn sgil hyn roedd cyrsiau mewnol y Cyngor wedi'u llenwi erbyn amser dechrau'r cyrsiau ym mis Medi, gyda 94 wedi cofrestru ar gyfer gwersi. Rydym wedi dychwelyd i gynnal rhai gwersi wyneb yn wyneb yn achlysurol erbyn hyn ac mae hyn wedi bod yn boblogaidd. Serch hyn, oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni mae nifer o staff yn ei chael hi'n anodd cydbwysu gwersi a beichiau gwaith uwch felly bydd gwaith yn mynd yn ei flaen i atgoffa rheolwyr o hawliau staff i gael amser i ddysgu'r Gymraeg, a phwysigrwyd hynny i allu'r Cyngor i gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol. Byddwn ni'n adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf yn unol â'r adborth rydym yn ei dderbyn

Cylchlythyr yr Uned

Mae Uned y Gwasanaethau Cymraeg yn parhau i ddosbarthu cylchlythyr chwarterol i staff y Cyngor er mwyn tynnu sylw at rai o'n prif feysydd gwaith ac i gynorthwyo â'r ymdrechion i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar draws y Cyngor. Mae hyn yn dilyn y newid yn y ffordd mae'r Cyngor yn cyfathrebu'n fewnol fel sefydliad â chynifer o staff yn gweithio gartref yn fwy aml yn dilyn y pandemig Covid-19. Mae'r cylchlythyr yn parhau i gael ei bostio ar grŵp Facebook caeedig y Cyngor ar gyfer staff. Y nod yw sicrhau bod cynifer o staff â phosibl yn ei ddarllen, gan gynnwys staff â mynediad cyfyngedig i gyfrifiadur. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cylchlythyr wedi codi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod ei hun a digwyddiadau cysylltiedig, wedi hyrwyddo ein sesiynau gwybodaeth ar y Gymraeg, wedi dosbarthu'r canllawiau diweddaraf, ac wedi hysbysu staff am Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor.

Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024

Ym mis Mawrth 2023, lansiwyd ymgyrch Eisteddfod Rhondda Cynon Taf drwy gynnal achlysur yn nhafarn y Lion, Treorci. Roedd hyn yn arwydd o ddechrau 18 mis o baratodau a fyddai'n gweld pwyllgorau apêl lleol yn cael eu sefydlu gyda'r bwriad o godi arian tuag at ddod â'r Eisteddfod yn ôl i RCT, am y tro cyntaf ers Aberdâr 1956. Dros y misoedd nesaf, cyfarfu gwirfoddolwyr lleol i sefydlu pwyllgorau yn ardaloedd Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-Elái a dechreuodd y gwaith ar unwaith. Roedd digwyddiadau lleol yn cael eu trefnu, ac yn parhau i gael eu trefnu o hyd, nid yn unig i godi arian ond i fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol a dod â phobl o gefndiroedd amrywiol at ei gilydd.

Ym mis Mehefin 2024 ymwelodd digwyddiad Cyhoeddi'r Eisteddfod ag Aberdâr, a

dyma oedd y profiad cyntaf o'r Eisteddfod a'r Orsedd i lawer o drigolion lleol. Derbyniodd y digwyddiad adborth hynod o gadarnhaol a dangosodd i drigolion lleol fod yr Eisteddfod yn agored i bawb, gan chwalu'r myth blaenorol bod rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mwynhau.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'r Eisteddfod gan gefnogi pwyllgorau apêl lleol ac yn fwyaf diweddar wrth ddatblygu ôl troed yr Eisteddfod yn RhCT – gan weithio mewn partneriaeth i nodi seilwaith y gellir ei ddefnyddio i helpu i gynnal yr ŵyl. Y disgwyl yw y bydd 160,000+ o ymwelwyr yn cyrraedd RhCT ar gyfer wythnos gyntaf mis Awst, felly mae swyddogion y Cyngor yn gweithio'n agos gyda busnesau lleol i'w helpu i loywi eu sgiliau Cymraeg gyda'r bwriad o gynnig Croeso Cynnes Cymreig i bawb sy'n ymweld â'n trefi.

Mae themâu gwaddol hefyd wedi eu hadnabod, gyda phwyslais ar effaith ieithyddol yr Eisteddfod. Mae pamffled dwyieithog wedi ei baratoi yn ddiweddar i helpu pobl RhCT i loywi unrhyw sgiliau Cymraeg sydd ganddynt yn barod, ond hefyd i'w helpu i sgwrsio'n Gymraeg tra bydd yr Eisteddfod yma. Pan fydd yr Eisteddfod dod i ben ar 10 Awst 2024, bydd swyddogion y Cyngor yn defnyddio momentwm yr Eisteddfod i barhau i weithio tuag at adeiladu ar ganlyniadau Cyfrifiad diweddar a welodd gynnydd yn y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n lleol..

Ymgyrchoedd Diwylliannol

Hyrwyddodd Gwasanaethau Cymraeg yr Ymgyrchoedd Diwylliannol canlynol yn ystod 2023-2024:

Dydd Gŵyl Dewi

Ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi eleni, postiodd Uned y Gwasanaethau Cymraeg negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn gofyn i'n dilynwyr gymryd rhan yn y dathliadau. Yn ogystal, cafodd baner Dewi Sant ei godi mewn digwyddiad arbennig tu allan i'r Llys Cadwyn ym Mhontypridd ar y 1 Mawrth, gyda cynrychiolwyr o blith uwch reolwyr yr awdurdod lleol, y cyngor tref a phlant o Ysgol Gynradd Maes-Y-Coed yn bresennol.

Diwrnod Shwmae Su'mae

Ar gyfer Diwrnod Shwmae Su'mae eleni, gan wneud defnydd o becyn hyrwyddo y Fenter Iaith, postiodd Uned y Gwasanaethau Cymraeg gyfres o negeseuon ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn annog trigolion i gychwyn eu sgysiau gyda 'Shwmae', i gychwyn dysgu Cymraeg ac i wrando ar restr chware o ganeuon Cymraeg a grëwyd yn arbennig ar gyfer Diwrnod Shwmae. Ymhellach, fel pob blwyddyn, cafodd y faner Diwrnod Shwmae Su'mae ei godi tu allan i'n swyddfeydd (ar y pryd) yng Nghwm Clydach.

Diwrnod Santes Dwynwen

Eleni, mi ddathlodd Cyngor RhCT Ddiwrnod Santes Dwynwen trwy bostio cyfres o negeseuon ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo nifer o ddigwyddiadau lleol yn ymwneud â Diwrnod Santes Dwynwen a pwyllgorau apêl yr Eisteddfod ar y cyd.

Dydd Miwsig Cymru

Lluniodd Uned y Gwasanaethau Cymraeg gyfres o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo rhestrau chwarae Cymraeg, gigs a sesiynau cerddorol Cymraeg lleol. Yn ogystal, cafodd deunyddiau Dydd Miwsig Cymru, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a ddyluniwyd ar gyfer plant ysgol, eu rhannu gydag ysgolion y Fwrdeistref Sirol.

Prosiectau ac Ymgyrchoedd o'r Newydd

Yn ystod 2023/24, bu'r Gwasanaethau Cymraeg yn rhoi'r prosiectau a'r ymgyrchoedd canlynol ar waith, a pharatoi dogfennau ac adnoddau perthnasol o'r newydd, er mwyn cryfhau cydymffurfio yn bellach, a chynyddu'r defnydd o'r iaith, a'i phroffil, ymhlith y gweithlu ac yn y gymuned:

Cynllun Gwarantu Cyfweliad i Siaradwyr Cymraeg Lefel 3 neu Uwch

Cymeradwyodd Is-Bwyllgor Cabinet Rhondda Cynon Taf ar faterion y Gymraeg gynllun recriwtio newydd a fydd yn gwarantu cyfweliad am swydd i unrhyw ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg Lefel 3 neu uwch (ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol hefyd). Er i'r Cyngor weithio'n galed dros y blynyddoedd i wreiddio Safonau'r Gymraeg, recriwtio siaradwyr Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg ei staff cyfredol, mae hunanwerthusiadau blynyddol gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn parhau i amlygu bod angen rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod gennym ddigon o siaradwyr Cymraeg ar draws y Cyngor, ond yn arbennig ymhlith y staff rheng flaen. I'r perwyl hynny, bu'r Gwasanaethau Cymraeg yn llunio'r cynllun newydd hwn i ymateb i'r her hon a'r galw cynyddol am wasanaethau Cymraeg. Yn dilyn ei gymeradwyo gan Is-Bwyllgor y Cabinet yn Hydref 2023, nododd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn croesawu'r datblygiad arloesol hwn. Bydd y cynllun yn cael ei brif-frydio i holl bolisiâu recriwtio'r Cyngor, a'r Gwasanaethau Cymraeg yn cydweithio a'r adran Adnoddau Dynol ar ofynion technegol ac ymarferol ar gyfer rhoi'r polisi ar waith, a'r gobaith yw y bydd yn barod i'w weithredu rywbryd yn 2025.

Sesiynau 'Bitesize' ar y Safonau

Yn dilyn derbyn cwyn CS1080 trwy law Comisiynydd y Gymraeg am ddiffyg Cymraeg mewn cyfarfod a gynhaliwyd gan y Cyngor i rieni un o ysgolion uwchradd y sir, penderfynodd y Gwasanaethau Cymraeg fod angen ymgyrch benodol i atgoffa staff o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg. Mae wyth mlynedd wedi mynd heibio ers i'r Cyngor ddod yn ddarostyngedig i'r safonau yn 2016, ac er bod gweithgareddau helaeth wedi'u cynnal bryd hynny i gyflwyno'r Safonau i weithlu'r Cyngor, mae nifer o aelodau staff wedi symud i sefydliadau eraill, a staff iau wedi'u dyrchafu i swyddi rheoli yn y cyfamser. Mae staff y Gwasanaethau Cymraeg, wrth gwrs, yn rhoi cyngor polisi a chydymffurfio yn gyson i adrannau'r Cyngor yn unigol, ond teimlid ei bod yn hen bryd cynnal ymgyrch ledled y sefydliad i ail-gyflwyno'r Safonau i staff mewn rôlau newydd, a rhoi'r cyfle i eraill eu hatgoffa eu hun o'r gofynion. I'r perwyl hynny, cynlluniodd y Gwasanaethau Cymraeg 6 o sesiynau 'Bitsize' gwahanol, i drafod elfennau amrywiol ar feysydd sy'n flaenoriaeth i'r Cyngor o ran parhau i sicrhau cydymffurfiaeth gadarn – roedd un sesiwn yn cynnig trosolwg o'r safonau a'r gofynion eraill o ran deddfwriaeth, a'r pum sesiwn arall yn mynd i'r afael â threfnu cyfarfodydd, gohebu â'r cyhoedd, cyfieithu, recriwtio, ac asesu effaith polisi ar y Gymraeg. Mae pob sesiwn wedi'i chynnal dair gwaith yr un hyd yn hyn, ac mae

919 o aelodau staff wedi cofrestru ar eu cyfer. Y bwriad yw cynllunio cylch newydd o sesiynau ar gyfer 2024/25, ar themâu yn cynnwys creu fideos Cymraeg a dwyieithog, cynnal a threfnu cyrsiau hyfforddi ac addysg, a rheoli staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg.

Rhestr Wirio ar gyfer Trefnu Cyfarfodydd

Adnodd arall a baratowyd gan y Gwasanaethau Cymraeg yn dilyn derbyn cwyn CS1080 trwy law Comisiynydd y Gymraeg oedd Rhestr Wirio Trefnu Cyfarfodydd ac Achlysuron Dwyieithog. Dyma ddogfen PDF rhyngweithiol sy'n cynnwys pedair rhestr wirio i bobl eu defnyddio wrth drefnu gwahanol fathau o gyfarfodydd neu achlysuron (cyfarfodydd â gwahoddiad, cyfarfodydd yn ymwneud â lles, cyfarfodydd agored, ac achlysuron mae'r Cyngor yn eu trefnu neu'n eu hariannu), i wirio eu bod wedi cydymffurfio â'r safonau perthnasol a threfnu cyfieithu a chyfieithu ar y pryd lle bo angen. Yn ogystal a lle i dicio i ddweud eu bod wedi cwblhau camau angenrheidiol, mae hefyd lle i'r trefnwyr ysgrifennu nodiadau er mwyn cadw cofnod o manylion eraill sy'n berthnasol i'r safonau. Mae'r rhain wedi'u rhannu â holl staff y Cyngor, ac maent ar gael ar y fewnwyd, ac mae'r adborth a dderbyniwyd gan y sawl sydd wedi'u defnyddio hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Cyflwyniadau i Reolwyr

Yn ogystal â chynnal sesiynau 'Bitesize' i staff ar draws y Cyngor, bu swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg yn rhoi sesiynau hwy i wahanol grwpiau o reolwyr ar draws y Cyngor. Yn ystod mis Medi 2023, rhoddwyd cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg yn sesiynau gwybodaeth i reolwyr chwe-misol y Cyngor a fynychwyd gan 455 o aelodau o staff rheoli'r Cyngor. Yn sgil hynny, derbyniwyd gwahoddiad i gynnal sesiynau wedi'u teilwra i Uwch Reolwyr y Cyngor er mwyn iddynt allu cynllunio gwaith a'r gweithlu'n fwy strategol o safbwynt y Gymraeg. Yn dilyn hyn derbyniodd y Gwasanaeth geisiadau pellach i fynychu cyfarfod o uwch rheolwyr yr adran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, i gyflwyno mewn rhagor o fanylder a awgrymu datrysiadau i reolwyr ar yr heriau penodol sy'n codi ymhlith eu gwasanaethau wrth geisio cydymffurfio â rhai o'r safonau. Bu swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg hefyd yn mynychu cyfarfod o flaen swyddogion yr adran Adnoddau Dynol er mwyn rhoi arweiniad pellach ym maes asesu effaith newidiadau staffio ar y Gymraeg.

Llyfryn Rho Gynnig ar y Gymraeg

Yn dilyn gwaith yn 2022/23 i lansio prosiect busnesau 'Cymraeg Gyfeillgar' ar stryd fawr Treorci, mae Uned y Gwasanaethau Cymraeg wedi adeiladu ar hyn yn ystod 2023/24 er mwyn cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r defnydd ohoni yn ein prif drefi eraill ar draws y sir, gan gynnwys Pontypridd ac Aberdâr, er mwyn paratoi busnesau ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Uned wedi paratoi llyfryn dwyieithog yn cyflwyno sawl agwedd ar yr iaith i berchnogion a gweithwyr busnesau'r trefi, gan gynnwys ystyr enwau lleoedd lleol, cyfleoedd yn yr ardal i ddysgu, gwella a defnyddio'u Cymraeg, a thudalennau o eirfa ac ynganu i'w defnyddio wrth wasanaethu'r cyhoedd. Yn gynnar yn 2024/25 bydd y Gwasanaethau Cymraeg yn cyfrannu at ymgyrch i ddosbarthu'r llyfryn ar draws y sir a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith, yr Eisteddfod a'i gwaddol.

Gweithio gydag Adrannau eraill y Cyngor

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau newydd y mae'r Gwasanaethau Cymraeg wedi gweithio arnynt mewn cydweithrediad â gwasanaethau eraill y Cyngor, gan ddangos arfer da ar draws adrannau o ran hybu'r Gymraeg a gweithredu deddfwriaeth berthnasol:

Cyflawniad Corfforaethol – Cynllun Corfforaethol y Cyngor

Yn dilyn adborth ysgrifenedig a llafar a roddwyd i'r adran gan y Gwasanaethau Cymraeg yn ystod y broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, penderfynodd y garfan Cyflawniad Corfforaethol gyflwyno'r Gymraeg fel un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol newydd. Mae Deiliant 4 bellach yn canolbwyntio ar 'Ddiwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg'. Cymeradwywyd y cynllun gan y Cabinet ym mis Mawrth 2024, gan sicrhau bod y Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i holl wasanaethau'r Cyngor am y 6 mlynedd nesaf.

Adnoddau Dynol – Proses Rheoli Newid

O ganlyniad i adolygu Fframwaith Asesu Effaith ar y Gymraeg y Cyngor yng ngoleuni'r pwysau cynyddol ar gyllidebau'r Cyngor, teimlai staff y Gwasanaethau Cymraeg fod angen dull mwy cadarn o sicrhau bod rheolwyr yn ystyried effeithiau unrhyw doriadau i wasanaethau (gan gynnwys colli swyddi) ar eu y gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. I'r perwyl hwn, bu'r Gwasanaethau Cymraeg yn gweithio gyda swyddogion AD i ddylunio erfyn Asesu Effaith ar y Gymraeg pwrpasol i'w gynnwys yn y dogfennau sy'n gysylltiedig â'r Broses Rheoli Newid. Gall rheolwyr ei ddefnyddio wrth ystyried toriadau a diswyddiadau posibl, er mwyn sicrhau nad yw gallu'r Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn cael ei leihau.

TGCh a Digidol – gwahoddiadau Cymraeg i gyfarfodydd Teams

Fel rhan o ymgyrch y Gwasanaethau Cymraeg i wella cydymffurfiaeth ar draws y Cyngor mewn perthynas â threfnu cyfarfodydd, bu staff o'r uned yn gweithio gyda'r adran TGCh i gynnwys dolenni Cymraeg i gyfarfodydd Teams ar bob gwahoddiad a anfonwyd yn fewnol ac yn allanol gan swyddogion y Cyngor. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflwyno ar ddechrau 2024/25 a'r gobaith yw y bydd yn atgoffa staff mewnol o'u dyletswyddau statudol o ran y Gymraeg, ac yn annog gwahoddedigion allanol i arfer eu hawliau iaith wrth ymwneud â'r Cyngor.

Cwynion

Dyddiad gŵyn	Natur	Drwy law	Deiliant/Ymateb
Tachwedd 2022	Adran Addysg: Cwyn am gyflwyniad ac adnoddau uniaith Saesneg gan y Cyngor i rieni yn un o ysgolion Cymraeg y Sir. Roedd y gŵyn hefyd yn nodi bod yr holiadur Cymraeg a ddosbarthwyd yn rhan o'r cyflwyniad yn 'wallus'.	Aelod o'r cyhoedd drwy law Comisiynydd y Gymraeg (CS1080)	Cyfaddefodd y Cyngor ei fod wedi methu â bodloni disgwyliadau Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'r cyflwyniad a roddwyd, ond nododd ei fod wedi darparu adnoddau dwyieithog priodol, a'i fod eisoes wedi rhannu canllawiau ar gyfer trefnu cyfarfodydd dwyieithog gyda staff er mwyn ceisio osgoi methiannau o'r math yma. Serch hynny, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg fwrw ymlaen ag ymchwiliad llawn i'r mater yma. Wedi ymchwiliad trylwyr i'r mater, penderfynwyd nad oedd y Cyngor wedi torri Safonau mewn perthynas â safon y Gymraeg ar y deunyddiau a ddarparwyd, ond ei fod wedi torri safon mewn perthynas â threfnu cyfarfodydd dwyieithog. Lluniwyd cynllun gweithredu gan y Cyngor a nododd y byddai swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg yn cynnal cyfres o sesiynau 'Bitesize' am Safonau'r Gymraeg a chyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg, er mwyn i staff y Cyngor gael eu hatgoffa o'u dyletswyddau. Mae'r

			Cyngor hefyd wedi paratoi Rhestr Wirio Trefnu Cyfarfodydd Dwyieithog a'i rhannu ar hyd a lled adrannau'r Cyngor.
Gorffennaf 2023	Adran Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant: Cwyn am achlysur gwobrwyo i ddisgyblion ysgol lleol a gynhaliwyd gan y Cyngor. Honnodd yr achwynydd fod y rhan fwyaf o'r cyflwyniad wedi bod yn Saesneg, y deunyddiau ysgrifenedig a ddefnyddiwyd yn wallus o ran y Gymraeg, a bod holiadur ddim ar gael yn Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg.	Aelod o'r Cyhoedd drwy law Comisiynydd y Gymraeg (CS1180)	Ymatebodd y Cyngor i gadarnhau ei fod yn gyfrifol am yr achlysur. Cyfaddefodd fod safon y Gymraeg ar y deunyddiau yn is na'r hyn y mae'n ei ddisgwyl, a chadarnhaodd nad yr Uned Gyfieithu oedd wedi darparu'r cyfieithiad. Nododd fod y cyflwynydd wedi agor a chloi'r achlysur yn Gymraeg, a bod siaradwyr gwadd wedi cyflwyno yn Gymraeg yn ystod yr achlysur hefyd. Cyfaddefodd nad oedd yr holiaduron ar gael yn Gymraeg o'r cychwyn, ond roedd swyddog wedi mynd ati i'w hargraffu yn dilyn y cais ac roeddent ar gael o fewn 10 munud. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad llawn i'r materion hyn, a daeth i'r penderfyniad fod y Cyngor wedi torri Safon 36 gan drin y Gymraeg yn llai ffafriol. Mae'r Cyngor wrthi'n atgoffa holl adrannau'r Cyngor o'u dyletswyddau wrth drefnu cyfarfodydd, gan rannu'r Rhestr Wirio Trefnu Cyfarfodydd Dwyieithog gyda hwy. Bydd yn darparu adroddiad pellach ar hyn i'r Comisiynydd maes o law.

Awst 2023	Y Priffyrdd: Cwyn fod arwyddion uniaith Saesneg ar waith ger un o orsafoedd trên y fwrdeistref sirol tra bo Trafnidiaeth Cymru yn cynnal gwaith atgyweirio.	Aelod o'r Cyhoedd drwy law Comisiynydd y Gymraeg (CS1182)	Nid y Cyngor oedd yn gyfrifol am yr arwydd. Yn hytrach cwmni Amey Infrastructure (oedd yn cynnal y gwaith atgyweirio ar ran Trafnidiaeth Cymru) oedd yn gyfrifol, ac wedi symud arwydd dwyieithog y Cyngor. Roedd y Cyngor wedi ceisio cysylltu ag Amey Infrastructure ar sawl achlysur i gael gwared ar yr arwydd heb lwyddiant, felly gyrrwyd y mater ymlaen at Drafnidiaeth Cymru.
Rhagfyr 2023	Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid: Cwyn fod y gwasanaeth heb llwytho fideos Cymraeg i'w wefan, a'i fod wedi llwytho fideos Saesneg yn unig.	Aelod o'r Cyhoedd drwy law Comisiynydd y Gymraeg (CS1218)	Cyfaddefodd y Cyngor ei fod wedi peidio â chyrraedd y safon ddisgwyliedig parthed y mater hwn mewn ymateb i'r Comisiynydd. Nododd hefyd y gwaith roedd yr adran eisoes wedi'i wneud i unioni'r camgymeriad, sef: tynnu'r fideos ar unwaith a chynnal arolwg lawn o'r wefan dan sylw; rheolwyr yr adran yn mynychu sesiwn hyfforddiant arbennig ar greu fideos dwyieithog a fydd yn cael ei llunio gan y Gwasanaethau Cymraeg; ail-ddosbarthu coeden benderfynu'r Cyngor ar greu fideos; ac ychwanegu cam yn y broses ar gyfer cyhoeddi fideos er mwyn i reolwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Ar sail hyn, penderfynodd y Comisiynydd bod y Cyngor wedi torri dwy

			safon, ond nododd nad oedd angen cynnal ymchwiliad gan fod camau priodol eisoes wedi'u cymryd i sicrhau na fyddai hyn y digwydd eto.
Mai 2023	Y Priffyrdd: Derbyniodd y Cyngor sylwadau ar X gan drigolyn oedd yn anfodlon ar 'Coedlan Hunters' fel cyfieithiad ar gyfer 'Hunters Avenue'.	Aelod o'r Cyhoedd (neges ar X)	Cwyn ddim yn ddilys. Darparodd y Gwasanaethau Cymraeg wybodaeth ynglŷn â'u dealltwriaeth o'r enw, sef bod 'Hunters' yn cyfeirio at briod enw ac nid y gair Saesneg am 'heliwr/helwyr'. Ymatebodd adran y Priffyrdd i'r achwynydd gan nodi hynny, a'i wahodd i gynnig unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth oedd ganddo oedd yn mynd yn groes i'r canfyddiad hwn. Nid yw'r Cyngor wedi clywed rhagor hyd yma, felly mae'r arwydd gwreiddiol dal ar waith.
Mai 2023	Y Wasg: Cwyn am gyhoeddiad ar broffil X y Cyngor yn cynnwys llun o staff a chynghorwyr yn dal baner swyddogol achlysur Coroni'r Brenin. Nododd y gŵyn nad oedd y faner yn ddwyieithog gan awgrymu y dylid dileu'r cyhoeddiad.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys. Cysylltodd swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg ag adran y Wasg a gadarnhaodd fod neges wedi'i chyhoeddi yn Gymraeg hefyd. O ran y faner, esboniwyd mai baner swyddogol y Goron oedd hon, ac nad yw, felly, yn ddarostyngedig i'r Safonau.
Mai 2023	Ymgysylltu: Nid oedd yr achwynydd eisiau derbyn gohebiaeth Gymraeg, neu roedd eisiau derbyn gohebiaeth gyda'r Saesneg yn	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys. Ymatebodd swyddogion gan gyfeirio at Safon 4 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor anfon gohebiaeth safonol yn y ddwy iaith.

	ymddangos yn gyntaf.		
Mehefin 2023	Gwastraff a Gofal y Strydoedd: Cwyn am y ffaith bod deunyddiau'n hyrwyddo newidiadau i gasgliadau gwastraff yn ddwyieithog. Nid oedd yr achwynydd eisiau deunyddiau Cymraeg.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys. Ymatebodd swyddogion gan gyfeirio at Safon 4 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor anfon gohebiaeth safonol yn y ddwy iaith.
Gorffennaf 2023	Y Priffyrdd: Cwyn am gyfieithu enw'r stryd 'Clive Place' yn 'Maes Clive'. Roedd yr achwynydd o'r farn mai 'Lle Clive' yw'r cyfieithiad cywir.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys. Gan dynnu ar adnoddau safonol megis Geiriadur Prifysgol Cymry a Geiriadur yr Academi, darparodd swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg ymateb, yn nodi rhesymeg a thystiolaeth gadarn dros ddewis 'Maes Clive' fel y cyfieithiad mwyaf addas yn y cyd-destun hwn.
Gorffennaf 2023	Adran Gwastraff a Gofal y Strydoedd: Arwydd yn anghywir y tu allan i gyfleuster ailgylchu 'The Shed' (partner allanol) yn Llantrisant. 'Grab a Bargain' wedi'i gyfieithu i 'Chrafangia Bargen'.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn yn ddilys. Er mai partner allanol sy'n rhedeg y safle, mae'r arwydd yn cynnwys logo'r Cyngor. Mae'r sefydliad partner allanol wedi derbyn 'Bachu Bargen' fel cyfieithiad cywir ac addas ac wedi diwygio'r arwydd.
Gorffennaf 2023	Y Wasg: Cwyn am safon wael cyfieithiad awtomatig Facebook.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys. Adran y Wasg wedi ateb yr achwynydd i ddweud bod hyn y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.
Gorffennaf 2023	Gofal y Strydoedd: Aelod o staff wedi ymateb i Gynghorydd yn gofyn iddo yrru ei e-byst yn ddwyieithog	Aelod o'r Cyngor	Cwyn yn ddilys. Anfonwyd ymddiheuriad at y Cynghorydd, ac atgoffwyd yr aelod o staff penodol, a'r adran ar ei hyd, o bolisïau'r

	yn hytrach nac yn Gymraeg yn unig.		Cyngor ar ohebu yn unol â dewis iaith, a threfniadau o ran derbyn cymorth gan yr Uned Gyfieithu wrth ymateb i negeseuon yn y Gymraeg.
Gorffennaf 2023	TGCh a Digidol: Cwyn am dderbyn neges Saesneg trwy'r system 'Diweddariad am Wasanaethau'. Roedd yr achwynydd eisiau derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, ond roeddent wedi llenwi'r ffurflen gofrestru yn Saesneg.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys, ond cofnod y Cyngor o ddewis iaith yr unigolyn wedi'i ddiwygio i sicrhau y bydd yn derbyn gohebiaeth Gymraeg o hyn allan. Ymatebodd y Cyngor i ymddiheuro, ond gan egluro bod llenwi ffurflen Saesneg yn cael ei dderbyn gan Gomisiynydd y Gymraeg fel arwydd o ddewis iaith, ac felly dyna pam yr anfonwyd gohebiaeth Saesneg yn yr achos hwn.
Gorffennaf 2023	Y Swyddfa Gofrestru: Cwyn am arwyddion yn Swyddfa Gofrestru Pontypridd a oedd yn methu â chydymffurfio - y Saesneg i'r chwith neu uwchben y Gymraeg.	Aelod o Staff	Cwyn ddim yn ddilys. Mae'r arwyddion wedi bod yno ers o leiaf 2010, pan symudodd y gwasanaeth i'r adeilad dan sylw, ac felly ddim yn ddarostyngedig i'r Safonau. Yn unol â pholisi'r Cyngor, bydd unrhyw arwyddion newydd sy'n cael eu gosod neu'u hadnewyddu yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf.
Awst 2023	Parciau a Chefn Gwlad: Cwyn am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg mewn gwersi beicio ym Mharc Gwledig Cwm Dâr. Staff wedi ymateb yn ystod y wers trwy ddweud y byddai'r plant	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn yn ddilys. Ymateb wedi'i anfon at yr achwynydd ymddiheuro am brofiad ei blentyn yn ystod y wers, gan nodi bod y diffyg cydymffurfio wedi'i achosi gan ddiffyg goruchwyliaeth. Atgoffwyd staff yr adran bod angen trin dewis

	Saesneg eu hiaith yn teimlo'n wedi'u heithrio pe bai'r sesiwn yn cynnwys y Gymraeg.		iaith unigolion â pharch a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, er mwyn sicrhau na fydd rhywbeth fel hyn yn digwydd eto.
Awst 2023	Y Wasg: Cwyn bod gwahaniaeth yn yr wybodaeth rhwng neges Gymraeg a neges Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn yn ddilys. Cafodd ymateb ei anfon i'r achwynydd gan egluro'r neges yn fwy clir. Atgoffwyd staff o'r angen am eglurder yn y maes hwn wrth symud ymlaen.
Hydref 2023	Iechyd y Cyhoedd: Aelod o'r cyhoedd heb dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a'r Cyngor wedi tybio mai Saesneg oedd y dewis iaith heb ofyn.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn yn ddilys. Wedi trafodaethau gyda'r Gwasanaethau Cymraeg, roedd yr adran berthnasol wedi tynhau ar eu trefniadau ac atgoffa pob aelod o staff i barchu dewis iaith y cleient. Mae'r adran hefyd wedi gosod maes newydd ar y system sy'n galluogi'r cleient i nodi dewis iaith.
Tachwedd 2023	Gwasanaethau Gwastraff a Gofal y Strydoedd: Cwyn am arwydd uniaith Saesneg yng Nghanolfan Ailgylchu Trefforest.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn yn ddilys. Swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg wedi cysylltu â'r adran berthnasol i drefnu bod arwydd newydd ddwyieithog yn cael ei osod.
Ionawr 2024	Gwasanaeth y Llyfrgelloedd: Cwyn am ddiffyg Gwasanaeth Cymraeg yn llyfrgell Pontypridd. Yr achwynydd yn honni ei fod wedi bod i'r llyfrgell ar fwy nag un achlysur ac wedi methu â chael gwasanaeth Cymraeg. Cwynodd hefyd nad yw staff	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn yn ddilys. Wedi trafodaeth gyda swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg am sefyllfa staffio'r llyfrgelloedd ar hyn o bryd, ymatebodd swyddog o Wasanaeth y Llyfrgelloedd i'r achwynydd yn ymddiheuro i'r achwynydd, gan egluro'r sefyllfa'n fwy manwl, sef bod siaradwyr Cymraeg

	yn gwisgo'r bathodyn iaith gwaith.		y safle yn gweithio'n rhan amser, a bod ymdrechion i benodi staff Cymraeg pellach wedi bod yn aflwyddiannus. Roedd yr ymateb hefyd yn nodi'r trefniadau sydd yn eu lle er mwyn cynnig gwasanaeth Cymraeg i'r cyhoedd yn absenoldeb swyddogion sy'n siarad Cymraeg, sef bod modd i staff ffonio siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd eraill i ddarparu gwasanaeth dros y ffôn. Pwysleisiodd y Gwasanaethau Cymraeg i Wasanaeth y Llyfrgelloedd fod angen iddynt flaenoriaethu recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, a bod angen atgoffa staff i wisgo cortyn gwddf/bathodyn iaith gwaith lle bo hynny'n briodol. Anfonwyd cortynnau gwddf iaith gwaith y Cyngor at yr adran er mwyn bodloni hyn.
Ionawr 2024	Y Priffyrdd: Cwyn ynglŷn â dyluniad a thestun yr arwyddion wrth gyrraedd a gadael pentref Brynnau Gwynion.	Aelod o'r Cyngor	Cwyn yn ddilys. Gweithiodd yr Uned Gyfieithu gyda'r adran berthnasol i gywiro'r arwyddion a diwygio'r dyluniad. Cafodd arwyddion newydd sy'n cydymffurfio eu codi wedi hynny.
Chwefror 2024	Y Swyddfa Gofrestru/Refeniw a Budd-daliadau: Cwyn am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg gan y	Aelod o'r Cyhoedd	Archwiliad yn parhau – llunnir ymateb i'r achwynydd maes o law pan ddaw'r archwiliad i ben.

	Gwasanaeth Cofrestru ac Adran Treth y Cyngor wrth geisio cofrestru marwolaeth a chau cyfrifon yr unigolyn oedd wedi marw. Hefyd, roedd y gwaith papur o ran Treth y Cyngor yn uniaith Saesneg - tanseilio'r gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith yn y Gymraeg' yn ôl yr achwynydd.		
Chwefror 2024	Y Priffyrdd: Arwydd ffordd wedi'i gamsillafu'n Heol-y-Mynych yn lle Heol-y-Mynach.	Aelod o'r Cyhoedd	Cwyn yn ddilys. Cysylltodd swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg â'r adran berthnasol a chafodd arwydd ei godi gyda'r sillafiad cywir 'Heol-y-Mynach'.

Sgiliau Cymraeg Staff: Safon 170(2)(a)

Mae'r adran yma'n nodi nifer y gweithwyr/deiliaid swyddi oedd â sgiliau Cymraeg hyd at 31 Mawrth 2024. Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 151, yn seiliedig ar ofynion Safon 127.

Blwyddyn	Staff */**	Math o staff	Dim sgiliau	% â sgiliau
23-24	7128	Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion	3064	42.99
			Rhugl	%
			693	9.73
			Cymraeg Lefel 1	%
			2744	38.50
			Cymraeg Lefel 2	%
			370	5.19
			Cymraeg Lefel 3	%
			146	2.05
			Cymraeg Lefel 4	%
			158	2.22
			Cymraeg Lefel 5	%
			535	7.51

*Dydy'r niferoedd hyn ddim yn cynrychioli nifer y gweithwyr – maent yn cynnwys cyflogaeth luosog, hynny yw, lle mae un gweithiwr yn dal sawl swydd. Mae'n cynnwys gweithwyr achlysurol hefyd.

** 116 (1.56%) heb gofnod

Hyfforddiant ar Gyfer Staff: Safon 170 (2)(b) ac (c)

Does dim newid wedi bod ers y sefyllfa yn 2022-2023 o ran hyfforddiant ar gyfer Recriwtio a Hysbysebu, Rheoli Cyflawniad, Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu, Ymsefydlu, Delio â'r Cyhoedd ac Iechyd a Diogelwch, yn seiliedig ar y cofnodion a gafodd eu cadw yn unol â Safon 152 sy'n seiliedig ar ofynion Safon 128.

Llenwi Swyddi Gwag: Safon 170 (ch)

Caiff y ffigyrau canlynol eu cadw yn unol â Safon 154, yn seiliedig ar ofynion Safon 136. Ers mis Medi 2017, mae'n hanfodol bod pob swydd newydd yn gofyn am Gymraeg Lefel 1 (Cymraeg sylfaenol) gydag opsiynau i reolwyr recriwtio ar lefel 2 i lefel 5 gan ddibynnu ar y swydd. Mae nifer y swyddi ar y lefel rhwng 1 a 5 fel a ganlyn:

Lefelau Sgiliau Cymraeg	L1	250
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L2	4
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L3	1
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L4	0
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L5	5

*Yn dilyn cyflwyno systemau AD a recriwtio ar-lein newydd ar draws y Cyngor, dim ond data o ddiwedd Gorffennaf ymlaen sydd ar gael. Ar gyfer 2024/25, bydd data cyflwn ar gael.

** Yn dilyn cyflwyno systemau AD a recriwtio ar-lein newydd ar draws y Cyngor, nid yw'r cwestiwn ynghylch lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen yn orfodol bellach, gan nad yw'r system yn caniatáu hyn. Mae rheolwyr sy'n hysbysebu swydd yn cael eu hannog yn bwrpasol i gwblhau'r cwestiwn, ac mae pob hysbyseb yn cael ei hadolygu gan y garfan recriwtio cyn ei chyhoeddi i geisio sicrhau cydymffurfio.

Rhagor o wybodaeth

Uned y Gwasanaethau Cymraeg,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg,
Pentre'r Eglwys,
Pontypridd,
CF38 1RQ.
Ffôn: 01443 570001
E-bost: Swyddoglaith@rctcbc.gov.uk

Atodiad 1 – Hunanwerthusiadau Gwasanaethau 2023-2024

Gwasanaethau i Oedolion

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso

Rydyn ni'n parhau i ymateb yn effeithiol i ofynion Safonau'r Gymraeg a chynllun "Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Hybu'r Gymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol" Llywodraeth Cymru - gan weithio'n agos gyda chydweithwyr yng Ngharfan Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r gofynion yma. Rydyn ni hefyd yn monitro ein holl ddarparwyr gwasanaeth allanol i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Safonau. Does dim materion wedi cael eu nodi.

Fel yr adroddwyd mewn gwerthusiadau blynyddol blaenorol, mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn gwneud cynnig rhagweithiol i gyfathrebu yn Gymraeg os mai dyna ddewis unigolyn. Mae pobl y mae'n well ganddyn nhw dderbyn gwasanaethau a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hamlygu yn ein system. Mae ein holl gyhoeddiadau yn ddwyieithog, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae pob aelod o staff yn gwybod am ofynion y Safonau a sut bydd hyn yn effeithio ar ei waith. Rydyn ni hefyd yn hyfforddi a datblygu staff er mwyn eu hannog i ddysgu Cymraeg, ac yn darparu sesiynau gwybodaeth a nodiadau atgoffa ar y gwasanaethau Cymraeg a gynigir.

Cyfanswm yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion yn ystod y flwyddyn 2022/23 oedd 8,315. Roedd tystiolaeth o gynnig Cymraeg yn rhagweithiol mewn 8,199 o achosion (98.9%). Derbyniwyd y cynnig mewn 46 achos, sy'n ostyngiad o'r nifer ar gyfer 2021/2022 sef 80.

Yn ystod 2023 ni chwblhawyd unrhyw waith penodol i ddatblygu ein harlwy o ran y Gymraeg er bod cynnig rhagweithiol o hyfforddiant i'r holl staff, o'r dechreuwyd i'r rhai sy'n gwella, yn cael ei ddosbarthu'n gyson.

Mae Asesiadau Effaith ar y Gymraeg wedi'u cwblhau ar gyfer y

- trosglwyddo'r contract Gofal yn y Cartref ([Pecyn Cyhoeddus](#)) [Dogfen Agenda ar gyfer y Cabinet, 23/10/2023 10:30 \(moderngov.co.uk\)](#)
- Adolygiad gwasanaeth oriau dydd Anableddau Dysgu ([Pecyn Cyhoeddus](#)) [Dogfen Agenda ar gyfer y Cabinet, 20/11/2023 12:30 \(moderngov.co.uk\)](#) Trosglwyddo contract byw â chymorth Anableddau Dysgu ([Pecyn Cyhoeddus](#)) [Dogfen Agenda ar gyfer y Cabinet, 23/10/2023 10:30 \(moderngov.co.uk\)](#)

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Gyda chefnogaeth Carfan Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, adolygu ein cynnydd o ran bodloni gofynion Mwy na Geiriau a llunio cynllun i gefnogi cyflawniad a gwelliant ar gyfer y 2-4 blynedd nesaf.

Ynglŷn â chamau gorfodi statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch cydymffurfio â Safon Rhif 27, bydd y Gwasanaethau i Oedolion yn

- Cadw cofnod o bob cyfarfod lle anfonwyd gwahoddiadau at gyrff/personau allanol (sydd ddim yn ymwneud â lles y mynychwyr)

- O blith y cyfarfodydd hynny, cadw cofnod o'r cynnig i fynychwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd
- Nodi pa gymorth a roddwyd i unrhyw un a oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, fel bod modd iddyn nhw wneud hynny

Y Celfyddydau, Diwylliant, Llyfrgelloedd a Datblygu'r Gymuned

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant fel bod gyda nhw o leiaf sgiliau Cymraeg Lefel 1. Mae'r staff yn ddysgwyr neu'n rhugl yn Gymraeg. Wrth i staff ennill sgiliau ychwanegol, cyfrifoldeb rheolwyr yw diweddarau'r wybodaeth i sicrhau adlewyrchiad cywir o sgiliau Cymraeg eu carfanau.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'r holl ddogfennau cyhoeddus a negeseuon digidol yn ddwyieithog.

Mae pob gwefan yn ddwyieithog; fodd bynnag, mae heriau o ran sicrhau cydymffurfiaeth oherwydd capasiti, yn enwedig wrth ymateb ar gyfryngau cymdeithasol.

Lle mae comisiynau trydydd sector ar waith, mae Gwasanaethau Cymraeg wedi chwarae rhan ymgynghorol wrth sicrhau bod contractau'n amlygu'r Safonau penodol y mae'n ofynnol iddyn nhw eu bodloni. Mae elfen yma'r contract yn destun monitro gan y Garfan Gomisiynu.

Mae gan feysydd gwasanaeth ddealltwriaeth glir o ran sut y maen nhw'n cyfrannu at '[Strategaeth Bum Mlynedd y Cyngor ar gyfer Hybu'r Gymraeg 2022-2027](#)'.

Mae meysydd gwasanaeth hefyd yn ymddangos yn y [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 2032](#) ac yn cyfrannu at y gwaith o'i gyflwyno'n llwyddiannus.

Mae heriau mewn perthynas â sicrhau bod modd manteisio ar wasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid o ran gwasanaethau lle mae lleoliadau cyflawni lluosog. Mae hyn yn arbennig o wir am y Gwasanaethau iBobUn a'r Llyfrgelloedd. Rydyn ni wedi mynd i'r afael â pheth o hyn trwy drefnu i staff fynychu cyrsiau gloywi Cymraeg a rhyddhau staff ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg rheolaidd.

Mewn perthynas â Gwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion, mae penodi dau aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg i hyrwyddo'r gwasanaethau i ysgolion Cymraeg wedi arwain at dair ysgol Gymraeg yn ymuno â'r gwasanaeth eleni.

Mae pob aelod o staff yn effro i bwysigrwydd cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn effro i'r systemau ar waith yn eu meysydd gwasanaeth i sicrhau bod modd cyflawni hyn.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn rhugl yn Gymraeg. Mae Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned hefyd yn rhugl yn Gymraeg.

Mae hyn yn golygu bod modd delio ag unrhyw faterion sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol yn

Gymraeg a hyrwyddo'r cynnig mewn perthynas â Safonau 101-109 ymhlith gweithlu'r gwasanaethau ehangach.

Gwerthuso:

Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant i gyrraedd o leiaf Lefel 1 yn y Gymraeg. Mae'r staff yn ddysgwyr neu'n rhugl yn Gymraeg. Wrth i staff ennill sgiliau ychwanegol, cyfrifoldeb rheolwyr yw diweddarau'r wybodaeth i sicrhau adlewyrchiad cywir o sgiliau Cymraeg eu carfanau.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'r holl ddogfennau cyhoeddus a negeseuon digidol yn ddwyieithog.

Mae pob gwefan yn ddwyieithog; fodd bynnag, mae heriau o ran sicrhau cydymffurfiaeth oherwydd capasiti, yn enwedig wrth ymateb ar gyfryngau cymdeithasol.

Lle mae comisiynau trydydd sector ar waith, mae Gwasanaethau Cymraeg wedi chwarae rhan ymgynghorol wrth sicrhau bod contractau'n amlygu'r Safonau penodol y mae'n ofynnol iddyn nhw eu bodloni. Mae elfen yma'r contract yn destun monitro gan y Garfan Gomisiynu.

Mae gan feysydd gwasanaeth ddealltwriaeth glir o ran sut y maen nhw'n cyfrannu at [Strategaeth Bum Mlynedd y Cyngor ar gyfer Hybu'r Gymraeg 2022-2027](#).

Mae meysydd gwasanaeth hefyd yn ymddangos yn y [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 2032](#) ac yn cyfrannu at y gwaith o'i gyflwyno'n llwyddiannus.

Mae heriau mewn perthynas â sicrhau bod modd manteisio ar wasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid o ran gwasanaethau lle mae lleoliadau cyflawni lluosog. Mae hyn yn arbennig o wir am y Gwasanaethau iBobUn a'r Llyfrgelloedd. Rydyn ni wedi mynd i'r afael â pheth o hyn trwy drefnu i staff fynychu cyrsiau gloywi Cymraeg a rhyddhau staff ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg rheolaidd.

Mewn perthynas â Gwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion, mae penodi dau aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg i hyrwyddo'r gwasanaethau i ysgolion Cymraeg wedi arwain at dair ysgol Gymraeg yn ymuno â'r gwasanaeth eleni.

Mae pob aelod o staff yn effro i bwysigrwydd cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn effro i'r systemau ar waith yn eu meysydd gwasanaeth i sicrhau bod modd cyflawni hyn.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn rhugl yn Gymraeg. Mae Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned hefyd yn rhugl yn Gymraeg.

Mae hyn yn golygu bod modd delio ag unrhyw faterion sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol yn Gymraeg a hyrwyddo'r cynnig mewn perthynas â Safonau 101-109 ymhlith gweithlu'r gwasanaethau ehangach.

O fewn rhaglen Grant Cymunedol Carfan Datblygu'r Gymuned, mae prosesau ymgeisio'r Gronfa Rhwydwaith Cymdogaeth a Chronfa Ffyniant Gyffredin yn y Gymuned yn gofyn i ymgeiswyr drafod y defnydd o gyfleoedd Cymraeg o fewn eu prosiectau ac egluro sut y darperir hynny.

Mae'r dull yma'n helpu i wreiddio ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn ymarferol yn ein darpariaeth o ddydd i ddydd.

O fewn Templed Achos Busnes y CAT a'r Asesiad, gofynnwn;

Nodwch a fydd eich gwasanaeth yn hygyrch/ar gael yn Gymraeg. Naill ai:

- *Wyneb yn wyneb;*
- *Drwy ddogfennaeth Ysgrifenedig;*
- *Drwy Wybodaeth Electronig*

Darparwch dystiolaeth o Bolisi Iaith Gymraeg (os yw'n briodol).

I ba raddau y bydd y gwasanaeth arfaethedig yn hygyrch/ar gael yn Gymraeg?

A oes gyda nhw Bolisi Iaith Gymraeg?

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi bwrw targed dangosydd ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru o 4% mewn perthynas â chanran gwariant ar lyfrau ac adnoddau ar-lein Cymraeg. Mae hyn wedi parhau i greu galw am wasanaethau Cymraeg, er nad yw lefel y problemau cyn waethed ag yr oedden nhw cyn y Pandemig. Bellach mae gan Wasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion ddau siaradwr Cymraeg rhugl, sy'n golygu bod modd cynnig arlwy Cymraeg gwell i ysgolion a gweithdai yn ein llyfrgelloedd.

Mae Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg yn ddarparwr allweddol o ran y Gymraeg, gan gynnig dosbarthiadau dysgu oedolion yn y gymuned, cynrychiadau theatr a pherfformiadau gan ysgolion a grwpiau Cymraeg lleol. Mae Theatrau RhCT hefyd yn llunio a chynhyrchu darpariaeth Gymraeg sy'n cael ei llwyfannu yn y theatrau ac yn mynd ar deithiau cenedlaethol, yn ogystal â darparu gweithgareddau cyfranogol. Serch hynny mae'r rhain i gyd yn amodol ar argaeledd cynrychiadau a hwyluswyr addas.

Mae pob maes gwasanaeth yn cefnogi ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â RhCT yn 2024 ac yn ystyried ei gwaddol yn rhan o grŵp Ffrwd Gwaith yn y Gymuned.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Cynnig rhagor o weithgarwch Cymraeg ym mhob maes gwasanaeth ac annog ein holl grwpiau cymunedol i wneud yr un fath.

Rhoi rhagor o gyfleoedd i staff wella eu sgiliau o ran y Gymraeg.

Gwasanaethau i Blant

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Mae'r Gwasanaethau i Blant ar gael i bob aelod o'r gymuned, ni waeth beth fo'u sefyllfa economaidd-gymdeithasol neu nodweddion gwarchodedig. Mae natur ein busnes yn anwahaniaethol, gan ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bawb sy'n bodloni'r trothwyon perthnasol, ni waeth beth fo'u hethnigrwydd, diwylliant neu iaith.

Yn rhan o'n proses asesu, rydyn ni'n darparu cynnig gweithredol i blant a theuluoedd o ran y Gymraeg, a chofnodir eu dewisiadau. Cyn unrhyw gyfarfod â defnyddwyr gwasanaethau, rydyn ni'n parhau i ofyn iddyn nhw nodi eu dull cyfathrebu dewisol a chaiff hyn ei gofnodi ar gyfer y dyfodol.

Mae data Rhagfyr 2023 yn nodi'r lefelau hyfedredd canlynol ymhlith staff y Gwasanaethau i Blant:

- Dywedodd 9.6% o staff RhCT eu bod nhw'n siarad Cymraeg yn rhugl.

- Mae gan 38.8% o staff RhCT sgiliau Cymraeg Lefel 1.
- Mae gan 42 aelod o staff y Gwasanaethau i Blant sgiliau Cymraeg Lefel 4 neu 5.
- Mae 12 aelod o staff Preswyl sy'n siarad Cymraeg.

Cafodd [Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg](#) ei chwblhau ym mis Ionawr 2023, yn rhan o'r trefniadau i roi ein Strategaeth Trawsnewid Gofal Preswyl 2022-2025 ar waith. Cafodd y gwaith yma ei gefnogi gan y garfan Gwasanaethau Cymraeg, ac rydyn ni'n troi ati hi am ragor o gymorth yn ôl yr angen.

Ar hyn o bryd mae 11 aelod o staff mewn lleoliadau gofal preswyl yn RhCT sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys rheolwr cartref preswyl.

Prif ganfyddiadau'r Asesiad Effaith oedd:

Ar y cyfan, bydd y Strategaeth Trawsnewid Gofal Preswyl yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg, gan mai ei ffocws yw lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal y tu allan i RhCT drwy eu galluogi i dderbyn gofal o fewn yr Awdurdod Lleol. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd i'r strategaeth gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Bydd llai o blant yn derbyn gofal y tu allan i'r sir, a thu allan i Gymru, o ganlyniad i'r strategaeth, sy'n golygu y bydd mwy o gyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal ddysgu Cymraeg, a datblygu eu sgiliau o ran y Gymraeg".

Yn unol â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor, bydd pob swydd wag yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar sgiliau Cymraeg hanfodol Lefel 1 cyn llwyddo i gael swydd yn y Gwasanaethau i Blant. Bydd sgiliau Cymraeg hanfodol Lefel 2 i 5 yn cael eu rhestru yn rhai dymunol wrth lunio disgrifiadau swydd ar gyfer rolau newydd. Nod hyn yw cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r Gwasanaethau i Blant yn annog ac yn cefnogi staff i ddilyn hyfforddiant Cymraeg yn rhan o'u cyflogaeth, fel bod modd iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â thrigolion RhCT e.e. Instagram, Twitter. Caiff yr holl ohebiaeth ar gyfryngau cymdeithasol ei rhannu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae angen cyflawni gwaith pellach i sicrhau ein bod ni'n bodloni Safonau'r Gymraeg, yn arbennig o ran trefnu cyfarfodydd. Mae angen trefnu cyfarfod gyda'r garfan Gwasanaethau Cymraeg i gael rhagor o eglurder am hyn, gan fod y canllawiau yn debygol o gael effaith sylweddol ar ein gwaith beunyddiol.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Adolygu cydymffurfiaeth gwasanaethau â Safonau'r Gymraeg, llunio cynllun gweithredu drwy ymgynghori â'r garfan Gwasanaethau Cymraeg.

Monitro data o ran sgiliau Cymraeg staff yn rheolaidd, a mynd ati i ddefnyddio'r data yma.

Yn ystod 2024-5 bydd angen i ni wirio cydymffurfiaeth â Mwy na Geiriau.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Mae'r holl ddogfennau Ymgynghori ac Ymgysylltu ar gael yn Gymraeg. Rydyn ni'n cynorthwyo staff yr adran Gymraeg gyda'u hymgyngoriadau eu hunain. Mae'r adran yn parhau i gefnogi aelodau o staff sydd am ddysgu Cymraeg er mwyn eu helpu i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol achlysuron rydyn ni'n cymryd rhan ynddyn nhw.
- Rydyn ni wedi cyflwyno cwestiwn newydd i'w ddefnyddio mewn ymgynghoriadau ar newid gwasanaeth er mwyn asesu'r effaith y bydd unrhyw newid yn ei chael ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg, sy'n unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg. Defnyddir hyn i lywio Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ac er mwyn cynorthwyo'r gwasanaeth i wneud penderfyniadau.
- Rydyn ni'n darparu opsiwn dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ar-lein neu all-lein.
- Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg. Rôl y Dadansoddwr Data yw cefnogi a darparu'r ymchwil a'r dystiolaeth sydd eu hangen ar wasanaethau i symud prosiectau/cynigion yn eu blaenau.

Cabinet a Chyfathrebu

- Mae'r garfan cyfathrebu yn cefnogi hyrwyddo achlysuron Cymraeg a diwrnodau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Mae'r garfan cyfathrebu yn parhau i roi cyngor i feysydd gwasanaeth ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn eu cyfathrebiadau.
- Mae tudalen facebook Gymraeg bwrpasol wedi'i sefydlu ar gyfer cyfathrebu yn Gymraeg. Roedd hyn yn angenrheidiol gan fod cyfieithiadau awtomatig anghywir gan Facebook yn creu negeseuon anghywir, a phobl yn dadlau ynghylch cywirdeb y cyfieithiadau.

[Tudalen Facebook Cyngor Rhondda Cynon Taf](#)

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Lle bo'n ymarferol bosibl, gwella ymhellach sut rydyn ni'n cyhoeddi cynnwys yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Cymunedau Diogel a Thai Cymunedol

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Mae pob maes gwasanaeth yn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn y modd canlynol:

- Mae pob arwydd, hysbysiad a chyhoeddiad yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg (mae'n well gyda ni ddefnyddio arddull dwyieithog).
- Mae posteri yn cael eu harddangos sy'n nodi bod croeso i bobl sgwrsio yn Gymraeg.
- Mae staff rhugl/dysgwyr yn gwisgo bathodyn/cortyn i ddangos eu bod nhw'n siarad Cymraeg.

- Mae rhai aelodau staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r gwasanaeth yn rhugl yn Gymraeg neu'n Ddysgwyr.
- Nodwyd bod y gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo'n weithredol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cadarnhawyd bod pob tystysgrif, pamffled, taflen, arwydd ac ati ar gael yn Gymraeg (mae'n well gyda ni ddefnyddio arddull dwyieithog).
- Wedi cadarnhau bod pob achlysur/cyfarfod cyhoeddus yn cael ei hyrwyddo yn Gymraeg. Cadarnhawyd bod cyfieithydd yn cael ei drefnu os bydd 10% neu ragor yn nodi eu bod nhw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg **Gwefannau ac Apiau**
- Mae tudalennau Saesneg yn nodi bod tudalennau Cymraeg ar gael hefyd.
- Mae negeseuon ar Gyfryngau Cymdeithasol yn cael eu rhannu'n ddwyieithog ar yr un pryd, ac mae llofnodion e-bost a negeseuon Allan o'r Swyddfa yn ddwyieithog hefyd.

Er gwaethaf yr uchod byddwn ni'n sicrhau bod pob rheolwr yn adolygu eu cyfrifoldebau o ran y Gymraeg yn gyson er mwyn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol ac yn deall nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhob maes gwasanaeth yn well.

Pan fydd y Cynllun Dyrannu newydd wedi'i gwblhau, bydd hefyd angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg maes o law:

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

- Bydd Cynllun Dyrannu newydd y Cyngor yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r broses yma.
- Cyflwyno gwerthusiad blynyddol o Siaradwyr Cymraeg o fewn y Gwasanaeth er mwyn cael dealltwriaeth glir o sgiliau Cymraeg staff y Gwasanaeth. Bydd hyn yn ein galluogi ni i gefnogi darpariaeth Gymraeg.
- Gweithio gyda'r garfan Gwasanaethau Cymraeg i wella ein dealltwriaeth o ofynion Safon Rhif 27 a llunio canllawiau penodol ar gyfer ein gwasanaeth ni, er mwyn helpu staff i gyflawni hyn yn effeithiol.
- Sicrhau bod pob rheolwr yn effro i fanylion Deddf yr Iaith Gymraeg a'u cyfrifoldebau i adolygu eu meysydd gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Gwasanaethau Cymuned

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Ers cyflwyno I-Trent, mae'r Cyngor wedi wynebu problemau parhaus o ran cael gwybodaeth am Sgiliau Cymraeg staff. Yn fwy diweddar, bu modd adrodd ar wybodaeth am lefelau sgiliau staff, ond hyd yma nid yw'r manylion yma ar gael i reolwyr gwasanaethau unigol. Pan fydd yr adroddiadau yma ar gael, bydd Gwasanaethau Cymuned yn cynnal cofnod blynyddol o welliannau o ran lefelau sgiliau staff.

Eleni, mae wyth aelod o staff y gwasanaeth Gwaith a Sgiliau wedi manteisio ar y cynnig i fynychu cyrsiau Cymraeg ar lefelau sgiliau amrywiol. Cyflwynir y cyrsiau hyn dros gyfnod o

flwyddyn a dylid eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn academiaidd ym mis Mehefin 2024.

Mae'r gwasanaeth Gwaith a Sgiliau wedi cyflwyno nifer o sesiynau Blasu'r Gymraeg yn ddiweddar er mwyn annog trigolion ledled y Fwrdeistref Sirol i ymgysylltu â ni. Bu nifer isel yn manteisio ar rai o'r sesiynau yma. Serch hynny, mae'r ddarpariaeth a gynigir yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg wedi profi'n llwyddiannus, gyda dysgwyr yn awyddus i fynd ymlaen i ddilyn cwrs Cymraeg i ddechreuwyd. Bydd y gwasanaeth yn parhau i gynnig ac ymgorffori darpariaeth Gymraeg wrth roi rhaglenni ar waith, ac yn rhan o'n rhaglenni hyfforddiant cyn cyflogaeth. Mae camau gweithredu ar gyfer y gwasanaeth wedi'u cynnwys yng [Nghynllun Cyflawni Strategaeth Hybu'r Gymraeg](#), ac adroddir yn erbyn hyn bob chwarter.

Mae'r Gymraeg hefyd wedi'i chydabod yn sector â blaenoriaeth bosibl yn rhanbarthol, gyda'r cyfle i gyflwyno darpariaeth Gymraeg yn cael ei ystyried a'i gynnwys yn y fframwaith comisiynu rhanbarthol sy'n cael ei arwain gan Dorfaen.

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned unwaith eto wedi ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Menter Iaith RhCT eleni ar gyfer cyflwyno cyrsiau Cymraeg a sesiynau blasu. Mae'r garfan hefyd yn mynychu cyfarfodydd grŵp Strategol a Gweithredol Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn rheolaidd, ac yn cefnogi trafodaethau a chynllunio darpariaeth Gymraeg ledled RhCT gyda phartneriaid.

Rydyn ni wedi rhoi proses ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth eleni i dalu costau cyfieithu drwy raglenni a ariennir gan grant.

Mae staff yn eglur o ran y gofyniad i nodi dewis iaith unigolyn ac i ymateb i unrhyw ohebiaeth sydd wedi dod i law yn yr iaith o'i ddewis. Mae gwybodaeth am sgiliau Cymraeg cleientiaid yn cael ei chofnodi yn rhan o'r broses cofrestru cleientiaid ar ein darpariaeth ar gyfer rhaglenni a ariennir drwy grant drwy'r garfan Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r gwasanaeth Gwaith a Sgiliau.

Mae'r holl ddogfennau a chyhoeddusrwydd ysgrifenedig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg perthnasol. Mae pob neges ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog ac mae newidiadau i dudalennau gwe yn cael eu hanfon i'w cyfieithu fel bod unrhyw newidiadau ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Ni chafwyd unrhyw gwynion swyddogol mewn perthynas â chynnig Cymraeg y Gwasanaethau Cymuned, fodd bynnag, yn ddiweddar cafwyd nifer fach o gwynion am feysydd gwasanaeth eraill ym mhob rhan o'r Cyngor. O ganlyniad i hyn, mae holl staff y Cyngor wedi'u hannog i fynychu Sesiynau Gwybodaeth (Bitesize) a gynhelir gan y garfan Gwasanaethau Cymraeg.

Roedd gofynion contract yr ymarfer Caffael a gynhaliwyd ar gyfer comisiynu darpariaeth allanol o ran rhaglen Lluosi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn nodi bod angen gallu cynnal darpariaeth Gymraeg a chydymffurfio â'r safonau gofynnol. Rhoddodd y garfan Gwasanaethau Cymraeg gyngor i ni ar ba safonau oedd yn berthnasol o ran y broses dendro.

Mae'r holl diwtoriaid yn parhau i gael eu hannog i ddefnyddio 'gair Cymraeg y dydd' yn eu sesiynau.

Cynrychiolir y gwasanaeth ar y grŵp ffrwd gwaith yn y gymuned, a sefydlwyd i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol RhCT ym mis Awst 2024. Bydd staff yn helpu i hyrwyddo'r achlysur, gan gynnwys cyfleoedd i wirfoddoli, codi arian a rhoi nawdd, i gleientiaid a chyflogwyr ledled y Fwrdeistref Sirol.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

- Hyrwyddo cyfleoedd pellach i staff y Gwasanaethau Cymraeg wella eu sgiliau Cymraeg a monitro lefel sgiliau staff ym mhob rhan o'r gwasanaeth.
- Ystyried cyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach mewn rhaglenni cyflawni a ariennir gan grantiau.
- Monitro presenoldeb staff mewn sesiynau hyfforddiant Cymraeg i sicrhau bod dealltwriaeth staff o ran cydymffurfio â'r Safonau yn cael ei gwella.
- Aelodau staff enwebedig i ddod yn hyrwyddwyr y Gymraeg ar gyfer y gwasanaeth.

Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymdrechu i ddarparu ei wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a chydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Mae'r holl ddeunydd ysgrifenedig sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth ar-lein a ffurflenni cais ar gael yn ddwyieithog ac mae pob pwynt cyswllt cychwynnol â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Mae staff derbynfa'r Ganolfan i Blant a Theuluoedd yn ogystal â'r Garfan Cymorth Materion Busnes ganolog yn ateb pob ffôn ac yn cyfarch aelodau'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Caiff sgiliau iaith eu hatgyfnerthu trwy recriwtio lle bo hynny'n bosibl, er nad yw hi bob amser yn bosibl recriwtio unigolion sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swydd ac sydd hefyd â'r sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol. Wrth ymgysylltu â gwasanaethau, gofynnir i deuluoedd bob amser am eu dewis iaith ac mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu penodi i weithio gyda theuluoedd unigol.

Mae pob aelod newydd o staff ar draws y Gwasanaeth Cydnerthedd a Llesiant y Gymuned yn cael ei gefnogi i gwblhau hyfforddiant Cyflwyniad i Gymraeg yr Awdurdod Lleol, ac yn cael ei gefnogi'n llawn i gwblhau unrhyw hyfforddiant pellach yn ystod oriau gwaith.

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS) Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid sy'n siarad Cymraeg ym mhob un o'r 4 ysgol uwchradd Gymraeg. Mae'r Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid yn cynnig cefnogaeth i bobl ifainc i wella eu cydnerthedd, ac yn brif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl ddarpariaeth ar ôl ysgol mae'r gwasanaeth yn ei gynnig i bobl ifainc. Mae siaradwr Cymraeg hefyd ym mhob rôl yn y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, sy'n sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael mynediad at weithiwr ieuenctid sy'n siarad Cymraeg ar draws pob maes o'r gwasanaeth, e.e. Cymorth Trosiannol/Iechyd Meddwl a Lles.

Mae darpariaeth Gymraeg ychwanegol a phwrpasol wedi'i chynnig ar gyfer pobl ifainc sy'n siarad Cymraeg eleni; dim ond staff sy'n siarad Cymraeg sy'n cynnal y gweithgareddau yma, a hynny er mwyn sicrhau bod dros 200 o bobl ifainc yn gallu cymryd rhan ynddyn nhw yn Gymraeg. Mae'r gweithgareddau yma'n cael eu cyflwyno yn ystod y diwrnod ysgol, yn ystod darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Cafwyd lefelau presenoldeb da ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau Cymraeg ar ôl y diwrnod ysgol; mae rhai enghreifftiau yn cynnwys sesiwn roboteg yn Ysgol Gyfun Rhydywaun gyda 29 o fynychwyr, a 25 o fynychwyr mewn sesiynau dawnys yn Ysgol Llanhari. Yn ogystal â hynny, cafodd sesiynau galw heibio amser cinio wythnosol eu cynnig yn y 4 ysgol Gymraeg, lle roedd modd i bobl ifainc dderbyn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Roedd nifer dda o bobl ifainc wedi dod i'r sesiynau yma,

gyda 17 o fynychwyr yn Rhydywaun, 23 yng Ngarth Olwg, 25 yn Llanhari a 23 yng Nghwm Rhondda. Er bod nifer dda wedi mynychu'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau, nodwyd bod angen gwneud rhagor o waith i bobl ifainc gael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg i ffwrdd o'r ysgol, gan fod llawer yn ei hystyried yn 'laith yr Ysgol'. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal gweithgareddau ar y cyd yn ystod hanner tymor mis Chwefror, fel bod modd i bobl ifainc o'r pedair ysgol Gymraeg ddod at ei gilydd a chymdeithasu â chyfoedion yn Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn parhau i gefnogi achlysuron Cymraeg yn RhCT, gan sicrhau bod pobl ifainc yn cael cynifer o gyfleoedd â phosibl i ddatblygu'r Gymraeg. Mae'r gwasanaeth wedi cefnogi a darparu gweithgareddau ym Mharti Ponty dros yr haf, ac wrth i ni edrych ymlaen at groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Ronda Cynon Taf yn 2024, fe aeth 5 o bobl ifainc o'r fforwm Ieuenctid, ynghyd â staff y Gwasanaeth, i Eisteddfod 2023 yn y gogledd. Roedd hwn yn gyfle i bobl ifainc, rhai yn rhugl yn Gymraeg ac ambell un yn ddi-Gymraeg i gael blas ar yr achlysur am y tro cyntaf. Roedd gofyn iddyn nhw gasglu gwybodaeth a chreu [fideo byr](#) i'w rannu gyda phobl ifainc eraill yn RhCT er mwyn hybu'r Eisteddfod, meithrin diddordeb a rhoi rhagor o wybodaeth am y Gymraeg. Bydd y bobl ifainc yma'n cymryd rhan weithredol wrth geisio annog pobl ifainc RhCT i ddod i'r Eisteddfod pan fydd hi ym Mhontypridd y flwyddyn nesaf. Mae Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn rhan o Ffrwd Gwaith yn y Gymuned Eisteddfod 2024, sydd newydd ei sefydlu. Felly, bydd y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn yr achlysur dros y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn chwarae rhan arweiniol yn y [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg \(CSCA\) 2022-2032](#) **Deiliant 5:** Rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol. Mae Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd ac mae'r rôl yn allweddol wrth lunio, gweithredu a gwerthuso cynnydd CSCA mewn perthynas â'i rôl mewn ysgolion a chlybiau Ieuenctid.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cefnogi ac yn hyrwyddo darpariaeth Ieuenctid Cymraeg y trydydd sector yn weithredol; Mae'r Fenter laith yn ddarparwr cymeradwy yn RhCT, ac mae wedi gwneud cais llwyddiannus i gyflwyno prosiect ar y cyd ag Urdd Gobaith Cymru. Nod y prosiect yma yw ymgysylltu â phobl ifainc sy'n siarad Cymraeg, a'u hannog i gymryd rhan mewn darpariaeth Gymraeg bellach. Mae cyfle iddyn nhw ddatblygu eu darpariaeth 'ar ôl ysgol' eu hunain yn y 4 ysgol uwchradd Gymraeg yn RhCT a'r coleg lleol. Bydd rhai o'r bobl ifainc hyn sy'n mynychu'r sesiynau yma hefyd yn cael cyfle i ddod yn wirfoddolwyr ac ennill cymwysterau ffurfiol yn seiliedig ar eu profiad o wirfoddoli. Bydd y prosiect hefyd yn cysylltu â phrosiectau eraill y Gwasanaeth, megis Fforwm Ieuenctid y Sir, i sicrhau nad yw'r ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei chynnal ar wahân i ddarpariaethau eraill. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cefnogi dau o staff y Fenter laith i gwblhau eu cymwysterau ym maes gwaith Ieuenctid a'r gymuned. Roedd y gefnogaeth yma'n cynnwys mynediad i hyfforddiant rhad ac am ddim, mentora, goruchwyliaeth ac arsylwi sesiynau ar gyfer staff y Fenter.

Mae darpariaeth cyfleoedd chwarae yn Gymraeg yn parhau i fod yn fwlch rydyn ni'n effro iddo yn y ddarpariaeth, o ganlyniad i gyfyngiadau yn y farchnad allanol. Mae hyn oherwydd diffyg darparwyr chwarae sy'n gallu cyflwyno'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i hyn, mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gyflwyno yn gynnig diwygiedig i atgyfnerthu'r arlwy o ran y Gymraeg o fewn darpariaethau cyfredol. [welshlanguageimpactassessment OAP September 23 V2.docx](#)

Er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob un o gontractau Chwarae-Ieuenctid, mae fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth diwygiedig wedi'i lunio, sy'n cynnwys monitro cydymffurfiaeth â safonau perthnasol y Gymraeg yn chwarterol; mae hyn yn cael ei dreialu gyda Darparwyr Chwarae yn ystod Chwarter 4 a bydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr holl ddarpariaeth Chwarae-Ieuenctid a gomisiynir trwy gydol 2024-25. Blaenoriaeth arall ym maes

Chwarae ac leuenctid o 24-25 fydd cynnal archwiliad blynyddol o'r holl wasanaethau a gomisiynir er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae gan bob lleoliad gofal plant Hyrwyddwr y Gymraeg sy'n hybu ac yn annog defnydd achlysurol o'r Gymraeg. Mae copïau o'r llyfryn Manteision Dwyieithrwydd wedi'u hanfon at holl leoliadau gofal plant yr Awdurdod Lleol er mwyn eu dosbarthu ymhlith rhieni.

Mae pob lleoliad gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg yn defnyddio sgorau'r offeryn monitro arsylwi ac asesu ar gyfer elfen iaith Gymraeg yr offeryn. Bydd y rhai y nodir nad oes ganddyn nhw sgiliau siarad Cymraeg digonol yn cael eu cyfeirio ar gyfer cyrsiau Cymraeg ychwanegol. Mae copïau o'r llyfryn Manteision Dwyieithrwydd wedi'u hanfon at yr holl leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn eu dosbarthu ymhlith rhieni.

Cafodd [Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg](#) ei gwblhau yn rhan o broses drosglwyddo meithrinfeydd yr Awdurdod Lleol.

Mae rhaid i holl bartneriaid wedi'u comisiynu gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg lle bo'n berthnasol i'r gwasanaeth sy'n cael ei gyflawni. Mae'r Garfan Hyblygrwydd Cyllido yn nodi p'un o'r 170 o Safonau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth wedi'i gontractio ac mae'r rhain yn cael eu rhestru yn y fanyleb gwasanaeth cyn tendro. Mae'r Swyddogion Monitro yn cynnal ymweliadau monitro bob chwarter i sicrhau bod contractau'n cydymffurfio, gan gynnwys [gwiriadau cydymffurfio](#) blynyddol ar Safonau'r Gymraeg. Mae rhestr wirio cydymffurfiaeth y Gymraeg wedi'i hadolygu eleni yn dilyn pryderon a godwyd gan Ddarparwyr, ac mae'r Garfan Hyblygrwydd Cyllido a Sicrhau Ansawdd wedi cwrrd â'r garfan Gwasanaethau Cymraeg i drafod y Safonau. I gefnogi'r Darparwyr Dechrau'n Deg, mae'r Garfan Hyblygrwydd Cyllido a Sicrhau Ansawdd wedi nodi arweinydd ar faterion y Gymraeg, a bydd y Garfan Sicrhau Ansawdd yn llunio cyfres o ffurflenni dwyieithog a fydd ar gael i leoliadau er mwyn helpu gyda chostau cyfieithu.

Mae'r Swyddogion Monitro yn cynnal [Archwiliad Safonau'r Gymraeg](#) ar wahân yn flynyddol gyda darparwyr. Mae canlyniadau'r archwiliad yn cael eu hanfon yn ôl at ddarparwyr yn rhan o'u cyfarfod adolygu cyflawniad blynyddol. Nodir bod angen camau gweithredu brys os oes unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio. Nid oes llawer o brosiectau sydd â siaradwr Cymraeg rhugl sy'n gallu darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg llawn ar gais ar unwaith. Mae mwyafrif y darparwyr yn cydymffurfio o ran bod dogfennau a deunyddiau sy'n cael eu dosbarthu i'r cyhoedd yn ddwyieithog a bod ganddyn nhw fecanweithiau yn eu lle i aelod arall o staff sy'n siarad Cymraeg, ar gais, naill ai godi'r alwad neu ffonio'n ôl ac yna cynnal asesiad/cefnogaeth ac ati.

Mae [Archwiliad Safonau'r Gymraeg](#) yn fframwaith sicrhau ansawdd i sicrhau bod yr holl leoliadau gofal plant a reolir gan awdurdodau lleol a darparwyr a gomisiynir yn cael eu monitro yn erbyn yr elfennau o ofal plant sy'n effeithio ar blant. Mae Rhaglen Dechrau'n Deg hefyd yn cyfrannu at [Ddeiliant 1 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg \(CSCA\) 2022-2032](#) - 'Rhagor o ddisgyblion meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg'.

Mewn ymateb i gyrraedd targedau Deiliant 1 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg - Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg, mae'r Garfan Hyblygrwydd Cyllido wedi adolygu'r trefniadau comisiynu drwy gyflwyno rhestr newydd o Ddarparwyr sydd wedi'u Cymeradwyo. Mae cyflwyno'r rhestr yma wedi rhoi'r cyfle i unrhyw ddarparwr gofal plant cyfrwng Cymraeg ddod yn ddarparwr Dechrau'n Deg heb orfod mynd drwy broses dendro gystadleuol (yn amodol ar fodloni safonau sicrhau ansawdd a bennwyd ymlaen llaw). Bu'r garfan yn gweithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin i hyrwyddo'r cyfle gyda'i aelodau. Nifer y darparwyr cyfrwng Cymraeg cymeradwy ym mis Tachwedd 2023 oedd 18, gyda 2 gais arall yn aros am gymeradwyaeth. Mae hyn yn cynnig mwy o ddewis i rieni a gwasgariad daearyddol gwell ledled RhCT. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd

Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg, gan arwain at gynnydd yn nifer y rhieni sy'n dewis addysg Gymraeg i'w plentyn.

Mae gweithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin wedi arwain at leoliad a oedd wedi bod yn gyndyn o ddarparu Dechrau'n Deg yn flaenorol, i wneud cais. Mae'r [ffurflen gais](#) ar gyfer lleoliadau wedi'i diwygio i gynnwys rhieni nad oes gyda nhw ddewis iaith cryf o bosibl. Pan fydd rhiant yn rhoi tic yn y blwch 'Ddim yn meindio/Don't mind', y nod fydd cynnig lleoliad Cymraeg. Mae'r bartneriaeth yn parhau i adolygu meysydd i'w gwella, gan gynnwys ffyrdd o gynnig rhagor o Gymraeg achlysurol mewn lleoliadau Saesneg.

Paratowyd taflen '[Y Daith Ddwyeithog](#)' mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin i hyrwyddo cynnig gofal plant dwyieithog Dechrau'n Deg. Mae'r daflen yn cael ei hanfon at bob rhiant sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg gyda'r ffurflen gofrestru ar gyfer gofal plant pan fydd y plentyn yn 18 mis oed. Bwriad y daflen yw atgoffa rhieni bod Cynnig Dechrau'n Deg hefyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

- Parhau i gefnogi staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Parhau i recriwtio darparwyr gofal plant Cymraeg sydd wedi'u cymeradwyo ac annog rhieni i fanteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg Cymraeg.
- Parhau i fonitro bod darparwyr a gomisiynir yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Parhau i geisio ysgogi'r farchnad i gynyddu'r cyfleoedd chwarae Cymraeg a ddarperir.
- Parhau i roi cyfleoedd i bobl ifainc gymdeithasu yn Gymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol

Uned Busnes y Cyngor

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

- Darpariaeth Gymraeg - Mae'r gwasanaeth yn parhau i feithrin agwedd gadarnhaol tuag at ddarpariaeth y Gymraeg fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg, a hynny trwy ddarparu agenda/cofnodion dwyieithog a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Pwyllgor yn ôl yr angen. Cafodd yr Aelodau eu holi ynghylch eu dewis iaith ar gyfer derbyn gohebiaeth ac fel bod modd cynnal cyfarfodydd yn unol â'u dewis iaith. Dywedodd 90% mai Saesneg oedd eu dewis iaith gyda 10% yn ffafrio sgwrsio/derbyn gwybodaeth yn Gymraeg. Er mwyn cefnogi ein Haelodau sy'n siarad Cymraeg yn uniongyrchol mewn cyfarfodydd, mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu'n benodol ar gyfer y pwyllgorau hynny lle mae'r aelodaeth yn cynnwys Aelodau sy'n siarad Cymraeg. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei gynnig pan fydd swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd wedi cael gwybod ymlaen llaw am unrhyw siaradwyr cyhoeddus sy'n dymuno cyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 16% o'r Aelodau yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd. Er mwyn hybu'r Gymraeg a chynyddu hyder dysgwyr newydd, bydd Uned Busnes y Cyngor ar y cyd â'r garfan Gwasanaethau Cymraeg yn cynnig cyfle i bob Aelod ymgymryd â dosbarthiadau Cymraeg pwrpasol i Aelodau Etholedig. Cafodd gwybodaeth

am y sesiynau rhad ac am ddim yma dan arweiniad Tiwtor Cymraeg y Cyngor ei darparu i'r Aelodau yn ddiweddar.

- Yn ychwanegol at yr uchod, trwy [Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd](#), mae Is-bwyllgor Cabinet y Gymraeg bellach yn Gorff sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yma'n caniatáu i Aelodau a Swyddogion edrych ar ddatblygiadau polisi a thueddiadau'r gwasanaeth i atgyfnerthu'r Gymraeg ym mhob rhan o'r Cyngor er budd yr Aelodau.
- Mae cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu gweddarlledu, ac mae modd i'r gynulleidfa ddewis gwrandio ar y sianel Saesneg neu'r sianel Gymraeg.
- Defnyddiodd y Cyngor y llwyfan Zoom i fwrw ymlaen â chyfarfodydd Pwyllgor rhithwir oherwydd y cyfleoedd dwyieithog o fewn y feddalwedd, gan sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn cael eu bodloni'n barhaus. Mae recordiadau o'r cyfarfodydd rhithwir ar gael ar wefan y Cyngor, ac mae modd dewis gwrandio ar gyfraniadau yn Gymraeg neu wrando ar y cyfieithiad Saesneg.
- Mae bwth cyfieithu pwrpasol wedi'i osod yn Siambr y Cyngor, sy'n cynorthwyo'r cyfieithydd ac yn rhoi gwell profiad i'r Aelodau hynny sy'n defnyddio'r ddarpariaeth gyfieithu.
- Cynorthwyo i greu a ffurfio'r Paneli Adolygu Asesiadau Effaith, sy'n ceisio cryfhau asesiadau effaith er budd y gymuned a'i thrigolion, gan ddiwygio arddull adrodd y cabinet a'r pwyllgor i adlewyrchu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol statudol sy'n ofynnol yn ogystal â'r gofynion asesu effaith ar y Gymraeg.
- Cyhoeddi agenda o fewn y canllawiau statudol gofynnol gyda'r holl agendâu yn ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- Carfan gyfieithu ymroddedig sy'n gweithio'n agos gydag Uned Busnes y Cyngor.
- Dosbarthiadau Cymraeg pwrpasol i Aelodau Etholedig gyda thiwtor Cymraeg y Cyngor
- Hyfforddiant iaith Gymraeg penodol i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion fel rhan o Raglen Gynefino Aelodau i hyrwyddo moesau iaith Gymraeg o fewn lleoliadau Pwyllgorau
- Gohebiaeth ddwyieithog gyda'r holl Aelodau Etholedig drwy e-bost.
- Annog staff Uned Busnes y Cyngor i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy brosiect ARFER.
- Defnyddio ap Modern Gov, sy'n caniatáu i Aelodau benderfynu ar ddewis iaith wrth ddarllen papurau pwyllgorau.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

- Gweithio gyda'r garfan gyfieithu i weld a oes modd cyfieithu dogfennau pellach h.y. – Gall cyfarfodydd pwyllgorau sydd ddim yn gwneud penderfyniadau ddarparu deunyddiau dwyieithog (cofnodion). Mae'r Garfan Gyfieithu ac uned Busnes y Cyngor yn adolygu hyn yn barhaus.
- Mae'n bosibl y bydd angen cynnal gwaith gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg o ran derbyn E-ddeisebau trwy system Modern Gov fel sydd wedi'i nodi o'r blaen – er ein bod ni'n effro i adolygiad ehangach sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru.
- Gweithio gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg i lunio modiwlau e-ddysgu i sicrhau eu bod nhw ar gael i Aelodau yn ddwyieithog.

- Adolygu'r tudalennau democratiaeth ar wefan y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg ym mhob maes.

Y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Gwasanaethau yn Gymraeg

- Nododd arolygiad Estyn ym mis Ionawr 2023 fod y gwaith o wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg, er enghraifft trwy gyfleoedd trochi hwyr, darpariaeth ADY arbenigol a gwella'r deilliannau ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion Saesneg, yn ei gamau datblygu cynnar. Roedd yr adroddiad yn argymhell: ***A2 Atgyfnerthu dulliau gweithredu o ran Addysg Gymraeg, er enghraifft trwy wella mynediad a chefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a darparu cyfleoedd trochi hwyr i ddisgyblion.***
- Cyflwynwyd 'Taith Iaith' RhCT (cynllun trochi hwyr) ym mis Medi 2023. Mae'r cynllun yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion di-Gymraeg ym Mlynnyddoedd 2 i 6 gael eu trochi yn yr iaith, gyda chefnogaeth y garfan drochi. Mae'r galw am ddarpariaeth yn ei dymor cyntaf wedi rhagori ar ddisgwyliadau, gydag 11 o ddisgyblion ar draws 7 ysgol wahanol yn cael cymorth ar hyn o bryd. Mae [Trosolwg o Taith Iaith](#) yn rhoi rhagor o fanylion am waith ymgysylltu cadarnhaol ag ysgolion a gwelliannau mewn sgiliau Cymraeg ar gyfer y garfan gyntaf o ddisgyblion. Os bydd y galw am y gwasanaeth yn parhau i gynyddu, bydd angen i ni drafod y camau nesaf gyda Llywodraeth Cymru i ganfod ffrydiau ariannu addas er mwyn gefnogi twf y cynllun.

Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg;

- Caiff Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg eu hysgrifennu a'u harchwilio'n ffurfiol ar gyfer pob newid polisi, gan gynnwys yr holl gynigion i ad-drefnu ysgolion. Mae Gwasanaethau Cymraeg RhCT yn ein cefnogi i gyflawni asesiadau o'r fath ar gyfer pob cynnig perthnasol a chraffu arnyn nhw. Mae Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'u paratoi ar gyfer y cynigion canlynol:
 - [Cynnig i ddatblygu Ysgol Arbennig newydd yn RhCT](#): Mae'r [Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg](#) yn amlinellu, er y bydd yr ysgol arbennig newydd yn un Saesneg, y bydd y defnydd o'r Gymraeg yn y cwricwlwm newydd yn cael ei hybu. Anogir yr ysgol i gyflawni Siarter Iaith Gymraeg 'Campus', sef rhaglen sy'n cefnogi ysgolion Saesneg i hybu'r Gymraeg ac 'ethos Cymreig' mewn ysgolion. Mae pob ysgol ac uned arbennig bresennol yn RhCT wedi ymuno â'r siarter trwy Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, gyda 3 wedi ennill y wobwr efydd o fewn y flwyddyn gyntaf. Bydd y cynnig yma'n helpu i gyflawni targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sef cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddysgwyr ag ADY.
 - Cynnig ar gyfer ysgol newydd yn ardal Glyn-coch - mae'r cynnig hwn yn ymwneud â chau 2 ysgol gynradd Saesneg bresennol (Ysgol Gynradd y Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg) a chreu 1 ysgol gynradd gymuned Saesneg newydd ar safle presennol Craig yr Hesg a'r tir cyfagos. Er mai ysgol Saesneg fydd hon, bydd lleoliad gofal plant a blynnyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar safle'r ysgol. Yn ogystal â hynny, bydd unrhyw rieni/cynhalwyr disgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth hon yn cael gwybod am y daith i addysg Gymraeg ac

yn cael eu cefnogi ar hyd y daith yma os ydyn nhw'n dymuno bwrw ymlaen â hi.

- Cynnig i sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfnod cynradd Cymraeg newydd yn yr ysgol Gymraeg newydd yn Rhydfelen – dyma fydd y ddarpariaeth Gymraeg gyntaf o'r fath yn RhCT a bydd yn ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr ag ADY ddysgu Cymraeg. Bydd modd i ddisgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth gael mynediad at ystod o weithgareddau allgyrsiol ychwanegol yn unol â'u cyfoedion trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cefnogi cyflawni ein targedau CSCA drwy gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael i ddysgwyr ag ADY.
- Cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos – er bod y cynnig hwn yn ymwneud ag ysgol Saesneg, gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar yr ysgol Gymraeg yn yr ardal (YGG Penderyn) gan fod yr ysgol ar hyn o bryd o fewn dalgylch YGG Penderyn. Mae adeilad ysgol YGG Penderyn yn gymharol newydd ac mae gan yr ysgol leoedd dros ben. Ers i'r broses ymgynghori ar gyfer y cynnig yma ddechrau, mae 3 disgybl eisoes wedi newid i YGG Penderyn ac yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan garfan cynllun trochi hwyr 'Taith Iaith' RhCT.

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

- Er mwyn sicrhau ein bod ni'n darparu'r lefel briodol o wasanaethau yn Gymraeg, rhaid i holl aelodau'r gwasanaeth gwblhau modiwl e-hyfforddiant 'Safonau'r Gymraeg – Ymwybyddiaeth o Gydymffurfiaeth' pan fyddan nhw'n ymuno â'r gwasanaeth. Yn ychwanegol at hyn, yn ystod yr wythnosau diwethaf mae holl staff y maes gwasanaeth wedi cael eu hannog i ddilyn hyfforddiant pellach a ddarperir gan y garfan Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd wrth ymdrin â gohebiaeth, asesiadau effaith, materion recriwtio, trefnu cyfarfodydd a chyfieithu yn unol â safonau'r Gymraeg. Mae rhai sesiynau hyfforddi eisoes wedi'u cyflwyno a bydd sesiynau pellach yn parhau i gael eu cynnal hyd at dymor y gwanwyn.

Prosiectau a chynigion a ariennir gan grantiau

- Ar hyn o bryd mae 22.8% o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd Cymraeg a 27% o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd Cymraeg yn RhCT, felly mae digon o leoedd dros ben i fynd i'r afael â thwf posibl yn y dyfodol. Bu buddsoddiad sylweddol mewn addysg Gymraeg ledled y fwrdeistref sirol:
 - Yn ardal Cwm Cynon, buddsoddwyd £4.7 miliwn yn YGG Aberdâr i gynyddu capasiti'r ysgol drwy ddarparu pedair ystafell ddosbarth newydd, estyniad i neuadd yr ysgol bresennol a mannau awyr agored newydd. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys cyfleuster gofal plant pwrpasol ar y safle yn dilyn buddsoddiad drwy'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg.
 - Mae YG Rhydywaun hefyd wedi elwa ar fuddsoddiad o £12.1 miliwn i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol ac i ddarparu cyfleusterau newydd a gwell.
 - Mae'r gwaith ar gyfer yr ysgol Gymraeg newydd yn Rhydyfelin ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn (sy'n ddwyieithog ar hyn o bryd) wedi'i gwblhau. Mae'r ysgol wrthi'n cael ei thrawsnewid o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol gwbl Gymraeg, a bydd hi'n cael ei hadnabod fel YGG Awel Taf o fis Medi 2024. Bydd hyn yn gweld cynnydd yng nghapasiti'r ysgol gan ychwanegu 93 o leoedd i ddisgyblion a chan wella'r arlwy Cymraeg yn yr ardal yn sylweddol.

- Mae ysgol Gymraeg newydd sbon gwerth £18 miliwn wrthi'n cael ei hadeiladu ar gyfer YGG Llyn y Forwyn yn ardal Cwm Rhondda. Hon fydd yr ysgol Gymraeg gyntaf i gael ei hadeiladu o'r newydd yn ardal Cwm Rhondda. Bydd y prosiect yma'n darparu amgylcheddau dysgu llawer gwell i ddisgyblion yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda ac mae disgwyl i'r ysgol agor i ddisgyblion o fis Medi 2024. Bydd y prosiect hwn hefyd yn cynnwys cyfleuster gofal plant pwrpasol ar y safle i gefnogi continwwm addysg trwy gynnig proses bontio di-dor i addysg gynradd Gymraeg.
- Yn dilyn heriau a wynebwr wrth recriwtio staff arbenigol, mae'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cymorth Dysgu Cymraeg newydd yn Ysgol Garth Olwg bellach wedi'i sefydlu. Agorodd y ddarpariaeth i ddisgyblion o fis Medi 2023 ac mae 4 disgybl yn manteisio ar y cymorth ar hyn o bryd. Mae'r garfan Mynediad a Chynhwysiant wrthi'n hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno aros mewn addysg uwchradd Gymraeg.
- Ym mis Gorffennaf 2023, cyflwynwyd Grant Cyfalaf Gofal Plant ar gyfer 3 chynnig ar wahân, gyda 2 o'r rhain ar gyfer darpariaeth Gymraeg. Derbyniwyd cymeradwyaeth i'r prosiect ym Mhenderyn ac yn dilyn apêl yn erbyn y penderfyniad, cafwyd cymeradwyaeth lafar i'r prosiect gwerth £1.5 miliwn yng Nghastellau. Unwaith y bydd cymeradwyaeth ffurfiol wedi'i derbyn, byddwn ni'n bwrw ymlaen â'r prosiectau yma. Bydd y ddau gynnig yn darparu gwell cyfleusterau ar gyfer lleoliadau gofal plant Cymraeg, sy'n ein cefnogi i gyflawni deilliannau ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Diweddariadau Cynnydd y CSCA

- Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn parhau i gyflawni gwaith arloesol gyda phartneriaid yn fewnol ac yn allanol er mwyn cyflawni ein targedau o ran y CSCA, sy'n amlygu'r ymrwymiad cryf i ddatblygu a gwella darpariaeth Gymraeg yn ein hysgolion a'n lleoliadau gofal plant. Ym mis Gorffennaf 2023, cafodd Adroddiad Adolygu Blynyddol CSCA ei lunio a'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru i'w drafod. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodebau cyffredinol o gynnydd yn erbyn pob canlyniad, gan nodi risgiau posibl a chamau lliniaru. Roedd yr adborth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn gadarnhaol a thynnwyd sylw at y ffaith bod y dadansoddiad manwl a gynhaliwyd gennym ni wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar lawer o feysydd sy'n peri pryder. O ganlyniad i hyn, gofynnwyd i ni a fyddai modd rhannu adran Canlyniad 7 yr adroddiad yn ehangach, yn enghraifft o arfer da.
- O dan fodel comisiynu newydd Dechrau'n Deg, mae modd cynnig lleoedd cyfrwng Cymraeg i'r rhai sy'n gymwys ar gyfer darpariaeth. Ar hyn o bryd mae 18 o leoliadau sydd wedi dod yn ddarparwyr cymeradwy ac sy'n gallu darparu lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae carfan Dechrau'n Deg a Mudiad Meithrin yn parhau i weithio ar gynyddu nifer y darparwyr sydd wedi'u cymeradwyo, ac maen nhw mewn trafodaethau gyda 3 lleoliad arall i ymuno â'r rhestr o ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo. Ers Ebrill 2023, o blith y 563 o leoedd a gynigiwyd, dewisodd 90 (18%) ddarpariaeth Gymraeg, sy'n gynydd ar y tymor blaenorol ac yn gam cadarnhaol ymlaen tuag at gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio darpariaeth Dechrau'n Deg yn Gymraeg.
- Yn 2022-2023, gostyngodd nifer y disgyblion blwyddyn 1 a oedd yn manteisio ar addysg Gymraeg gan 3 lle i ddysgwyr, o 524 (2021-2022) i 521. Serch hynny, mae nifer y plant tair oed sy'n defnyddio darpariaeth cyn oed meithrin a

darpariaeth feithrin Gymraeg wedi cynyddu ychydig o 561 (2021-2022) i 569 (2022-2023). Er mwyn cyflawni targedau ein CSCA, mae angen i hyn gynyddu'n sylweddol. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r rhanbarth i farchnata a hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg yn RhCT, a byddwn ni'n parhau i fonitro'r sefyllfa yn ofalus.

- Mae cyfraddau pontio rhwng pob cyfnod allweddol o addysg yn parhau'n weddol sefydlog gyda lefelau uchel o gyfraddau pontio o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4. Y gyfradd bontio o gyfnod allweddol 4 i gyfnod allweddol 5 yw'r isaf, fodd bynnag mae hyn yr un peth ar gyfer ysgolion Saesneg hefyd. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac ysgolion uwchradd Cymraeg i hyrwyddo'r cynnig ôl-16 mewn ysgolion er mwyn annog disgyblion i aros mewn addysg Gymraeg.
- Mae pob ysgol gynradd Gymraeg ac ysgol uwchradd Gymraeg yn RhCT yn rhan o raglen y Siarter Iaith. Mae pob ysgol gynradd Gymraeg wedi ennill y wobr efydd ac mae 5 ysgol wedi mynd ymlaen i ennill y wobr aur. Mae 2 ysgol uwchradd Gymraeg wedi ennill y wobr efydd ac mae un wedi derbyn y wobr arian.
- Mae pob ysgol gynradd Saesneg bellach yn rhan o raglen Campus y Siarter Iaith. Mae 44 ysgol gynradd Saesneg wedi ennill y wobr efydd, 23 wedi ennill y wobr arian a 2 wedi ennill y wobr aur. O blith y 11 ysgol uwchradd Saesneg yn RhCT, nid yw 2 wedi ymgysylltu â'r rhaglen hyd yma. Mae 4 ysgol wedi ennill y wobr efydd. Mae pob uned ac ysgol arbennig yn RhCT yn cymryd rhan yn y rhaglen ac mae 3 ohonyn nhw wedi ennill y wobr efydd.

Marchnata a hyrwyddo

- Lansiodd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ym mis Hydref 2023 ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor. Bydd yr ymgyrch yn rhedeg am 10 wythnos ac yn cynnwys fideos a baratowyd gan Fudiad Meithrin a Llywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo gofal y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg, addysg Gymraeg a throchi hwyrdyfodiaid. Mae ein swyddog CSCA yn rhan o weithgor gyda swyddogion awdurdodau lleol ledled y rhanbarth. Nod hyn yw rhoi dull rhanbarthol o farchnata a hyrwyddo addysg Gymraeg ar waith. Mae Cyngor Caerdydd wedi penodi swyddog hyrwyddo yn benodol er mwyn cefnogi'r prosiect yma.
- Mae gweithgor Ysgolion yr Eisteddfod Genedlaethol wedi'i sefydlu i godi ymwybyddiaeth a chodi arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol, sy'n cael ei chynnal yn RhCT ym mis Awst 2024. Mae'r grŵp eisoes wedi cyfarfod am y tro cyntaf, ac roedd swyddogion o garfan yr Eisteddfod yn bresennol yno er mwyn rhannu'r newyddion diweddaraf. Mae taflenni gwybodaeth Cymraeg a Saesneg wedi'u rhannu gyda phob ysgol, ac rydyn ni wedi'u hannog nhw i rannu'r rhain gyda rhieni/gofalwyr trwy eu sianeli cyfathrebu. Mae'r garfan addysg ar hyn o bryd yn gweithio ar strategaeth ymgysylltu ag ysgolion, a ddylai fod yn barod i'w rhannu ag ysgolion erbyn diwedd y tymor er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn newydd. Mae amrywiaeth o weithgareddau eisoes wedi'u cynnal ledled y fwrdeistref sirol a byddwn ni'n gweld rhagor ohonyn nhw wrth i ni agosáu at yr Eisteddfod.

Y Gweithlu – swyddogion awdurdod lleol

Mae'r tabl isod yn cynnwys y data diweddaraf o ran ffigurau staffio'r awdurdod lleol ac yn benodol, niferoedd y staff yr adran Addysg sydd â sgiliau Cymraeg.

Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf - Ffigurau Staffio	Cyfanswm y Staff	Ac eithrio Staff Arlwyo
Cyfanswm y staff yn yr awdurdod lleol	10,676	
Cyfanswm y staff sy'n rhugl yn Gymraeg	832	
Cyfanswm y staff eraill sydd ag unrhyw sgiliau Cymraeg	1,145	
Cyfanswm y staff yn yr Adran Addysg (sydd ddim yn athrawon)	3,601	2,990
Cyfanswm y staff hynny sy'n rhugl yn Gymraeg	283	264
Cyfanswm y staff eraill yn yr Adran Addysg sydd ag unrhyw sgiliau Cymraeg	476	447
Cyfanswm y swyddi a hysbysebwyd fel "Cymraeg yn Hanfodol" yn 2022-2023	Ddim wedi'i nodi	

Y Gweithlu – Athrawon/staff mewn ysgolion

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac yn amlinellu cyfanswm canran yr athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg am y 5 mlynedd academiaidd flaenorol, hyd at 2022-23 a chan gynnwys y flwyddyn honno. Mae'r data ar gyfer 2022-23 yn dangos gostyngiad yng nghanran yr athrawon cymwys sy'n addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf o gymharu â 2021-2022, ond mae'r data hefyd yn dangos cynnydd yn nifer yr athrawon cymhwyses sy'n addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, a nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny yn eu swydd bresennol.

Cyfanswm canran yr athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg					
	Blwyddyn Academiaidd				
	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Athrawon cymwys sy'n addysgu'r Gymraeg fel iaith Gyntaf	10.9%	9.7%	8.8%	14.1%	10.9%
Athrawon cymwys sy'n addysgu'r Gymraeg fel Ail iaith (yn unig)	38.6%	39.6%	36.3%	36.3%	36%
Athrawon cymwys sy'n addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg	8.4%	9.7%	11.2%	5.5%	8.7%
Athrawon cymwys sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond ddim yn gwneud hynny	6.3%	3.8%	3.4%	2.9%	4.2%
Heb gymhwyso i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	35.9%	37.2%	40.3%	41.2%	40.2%

- Mae data sydd ar gael gan y CBGY 2022 yn dangos:
 - Mae gan 52% o athrawon mewn ysgolion Saesneg yn RhCT sgiliau Cymraeg hyfedr.
 - Mae gan gyfanswm o 501 o athrawon mewn ysgolion Cymraeg sgiliau Cymraeg hyfedr.
 - O blith y 115 o ysgolion yn RhCT sydd â CADY, mae gan gyfanswm o 20 ohonyn nhw sgiliau Cymraeg hyfedr (mae 12 o'r rhain yn gweithio mewn ysgolion Cymraeg), mae gan 12 ohonyn nhw sgiliau uwch (mae 4 o'r rhain yn gweithio mewn ysgolion Cymraeg) ac mae gan 13 ohonyn nhw sgiliau canolradd.
 - O blith yr holl ysgolion yn RhCT, mae gan 17 o staff cymorth ADY sgiliau Cymraeg hyfedr (mae 11 o'r rhain yn gweithio mewn ysgolion Cymraeg), mae

gan 9 ymarferydd sgiliau canolradd ac mae gan 5 ohonyn nhw sgiliau Cymraeg uwch.

Y Gweithlu – cyfleoedd dysgu proffesiynol

- Yn 2022-2023:
 - Ymgwymerodd 2 o ymarferwyr RhCT â chynllun Sabothol Cymraeg Mewn Blwyddyn trwy Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De.
 - Ymgwymerodd 4 o ymarferwyr â'r cynlluniau sabothol dros un neu ddau dymor.
 - Ymgwymerodd 7 o ymarferwyr â chysiau dysgu proffesiynol Cymraeg.
 - Ymgwymerodd 5 o ymarferwyr â chwrs arweinyddiaeth y Gymraeg mewn ysgolion Saesneg.
 - Enillodd 2 ymgeisydd Cymraeg y CPCP.
 - Ymgwymerodd 1 ymarferydd ysgol gynradd ac 1 ymarferydd ysgol uwchradd â'r Rhaglen Darpar Benaethiaid.
 - Ymgwymerodd 1 ymarferydd ysgol gynradd a 7 ymarferydd ysgol uwchradd â'r Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol.
 - Ymgwymerodd 1 ymarferydd ysgol pob oed ac 1 ymarferydd ysgol uwchradd â'r Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr.

Dolenni cyswllt:

[Adroddiad Adolygiad Blynyddol CSCA Blwyddyn 1](#)

[Adroddiad Adolygiad Blynyddol CSCA - Atodiad A - Data CBY](#)

Dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi:

1. Gwerthuso llwyddiant y cynllun trochi yn dilyn ei dymor cyntaf ar waith, a pharhau i fonitro'r galw am y gwasanaeth. Os bydd y galw'n parhau i gynyddu, bydd angen i ni drafod ffyrddiau ariannu posibl yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi ehangu'r cynllun yn RhCT.
2. Pob aelod o staff y Gyfadran Addysg i ymgymryd â'r sesiynau hyfforddi i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.
3. Parhau i fuddsoddi mewn gofal plant ac addysg Gymraeg drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i ddarparu cyfleusterau gwell.
4. Parhau i weithio gyda'r rhwydwaith hyrwyddo rhanbarthol i ddatblygu strategaeth farchnata a hyrwyddo RhCT ei hun, mewn cydweithrediad ag awdurdodau cyfagos a phartneriaid allweddol.
5. Llunio a gweithredu strategaeth ymgysylltu ag ysgolion ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r ŵyl ac annog ysgolion i gymryd rhan yn y gweithgareddau a gaiff eu cynnal cyn yr ŵyl.
6. Parhau i weithio gydag ysgolion uwchradd Cymraeg i wella cyfraddau pontio rhwng cyfnodau allweddol 4 a 5.
7. Cynnal dadansoddiad data cadarn o ddata CBY a ffynonellau data eraill sydd ar gael er mwyn llywio cynllun olyniaeth strategol i fynd i'r afael â phwysau presennol a'r pwysau a ragwelir ar y gweithlu yn y dyfodol.
8. Mynd ati i ofyn i fynychwyr cyfarfodydd allanol gyda chyrrff cyhoeddus a oes angen gwasanaeth cyfieithu arnyh nhw.

Cynnal a Chadw a Rheoli'r Priffyrdd

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Mae'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw a Rheoli'r Priffyrdd yn parhau i fabwysiadu Safonau'r Gymraeg ac felly wedi ehangu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn ymgyrch recriwtio mae nifer o staff (dros 10) yn y Gwasanaeth sydd â sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig rhesymol, ac mae staff yn cael eu hannog i ddilyn cyrsiau i ddysgu'r iaith.

Pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau â thrigolion neu pan fydd [llythrau cyffredinol](#) yn cael eu hanfon, darperir pob gohebiaeth yn ddwyieithog h.y. trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn rhan o unrhyw arddangosfa gyhoeddus mae aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol bob amser i ateb neu sgwrsio yn Gymraeg gyda'r cyhoedd os oes angen.

Yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol o ran [adnewyddu arwyddion neu enwau strydoedd](#), mae pob arwydd newydd a gaiff ei osod yn ddwyieithog. Mae enwau strydoedd newydd bellach yn Gymraeg yn unig, gan hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhellach.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

- Parhau i annog staff i ddysgu Cymraeg lle bo hynny'n briodol.

Adnoddau Dynol

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Materion Addysg, Cyflogaeth, a Hyfforddiant

Mae'r garfan wedi bod yn destun ymchwiliad gorfodi safonau'r Gymraeg. Gweithion ni gyda Rheolwr y Gwasanaethau Cymraeg i ddarparu tystiolaeth er mwyn bodloni gofynion Comisiynydd y Gymraeg.

Mae 50% o'r staff sy'n cyflwyno'r rhaglen Addysg mewn ysgolion yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Cyflwynir sesiynau grŵp ac 1-1 yn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg RhCT.

Gwaith rhagweithiol y garfan lechyd Galwedigaethol:

Yn rhan o'n Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'n Hasesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cyflwyno Viv up, fe wnaethon ni nodi problem gyda chyflenwyr 3^{ydd} parti lle doedd dim modd cael cymorth yn Gymraeg. Er nad yw hyn yn ofynnol yn rhan o'r fframwaith caffael cenedlaethol, daethon ni o hyd i ap Cymraeg newydd o'r enw Cwtsh a gwefan lles gyda chynnwys Cymraeg. Yna fe wnaethon ni drafod gyda Viv up i'w hychwanegu at ein porth er mwyn rhoi mynediad at fentrau cymorth lles yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Gweler ein gwefan <https://vivup.yourcareap.co.uk/UK/EAP>

Rydyn ni'n cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg – Mae Inform, ein gwefan, RCT Source, Facebook, poster i achlysuron – i gyd yn dilyn y safonau.

Mae pob aelod o staff yn defnyddio neges ddwyieithog wrth ateb galwadau ac mae ein gwasanaeth negeseuon llais ar gael yn Gymraeg.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau ar gyfer Viv up a Your Care.

Mae ein holl lythrau i drefnu apwyntiadau yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau.

Gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn sesiynau lles a chymorth byr am eu dewis iaith cyn iddyn nhw fynychu'r sesiynau. Mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg wedi cytuno ar ein geiriad ar gyfer y sesiynau yma.

Mae llythrau i drefnu apwyntiadau i gleientiaid y Gwasanaeth lechyd Galwedigaethol yn gofyn

am eu dewis iaith, mae gyda ni un clinigwr sy'n siarad Cymraeg yn y garfan, ond rydyn ni wedi dod o hyd i nifer o glinigwyr eraill sy'n siarad Cymraeg drwy'r fframwaith Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol a'r rhestr o gwnselwyr y mae'n well gyda ni eu defnyddio.

Amrywiaeth a Chynhwysiant:

- Mae pob tudalen ar y rhynggrwyd/dogfennau cyhoeddus yn cydymffurfio'n llawn – gwnaed newidiadau yn dilyn cyfarwyddiadau gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg yn 2022/23.
- Mae Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau ar gyfer y CCS , gan geisio cyngor gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg.
- Mae aelodau'r garfan wedi mynychu cyflwyniadau gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud ag adolygiadau barnwrol/materion cydymffurfio – sy'n berthnasol oherwydd rôl y garfan ar y Panel Adolygu.
- Gofynnir i aelodau allanol y Cylch Trafod Materion Anabledd beth yw eu dewis iaith ar eu ffurflenni aelodaeth.
- Mae Aelodau'r garfan wedi mynychu sesiynau gwybodaeth byr yn ddiweddar i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r Safonau wrth gynnal achlysuron/sesiynau ymwybyddiaeth.
- Mae'r garfan yn rhagweithiol o ran rhoi gwybod i feysydd gwasanaeth bod angen iddyn nhw gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn ogystal ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gyfeirio staff at yr Uned Gwasanaethau Cymraeg.
- Yn anffodus, nid oes unrhyw aelod o'r garfan bresennol yn siarad Cymraeg, er bod gyda ni un dysgwr.

Gwerthuso:

Cysylltiadau â Gweithwyr

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod pob polisi yn cydymffurfio â'r Safonau.

-Gweithio gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd i gyflwyno gofyniad am Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i'r ddogfen ar reoli newid, a hynny ar ffurf atodiad byr.

-Gweithio hefyd gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i gyflwyno cynllun gwarantu cyfweiliad ar gyfer unrhyw ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y rôl ac sydd â Chymraeg lefel 3 neu uwch. (Rheoli Newid ac Atodiad 4)

Datblygu'r Gweithlu

- Mae Carfan Datblygu'r Gweithlu yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
- Mae'r arolwg staff a'r adolygiad Cyflawniad Unigol ar gael yn ddwyieithog. Mae'r arolwg staff ar gael yn Gymraeg; mae'r opsiynau ar-lein a thrwy'r post yn ddwyieithog ac mae modd dewis ei ateb yn Gymraeg dros y ffôn. Mae holl ganllawiau a thempledi Adolygu Cyflawniad Unigol blynyddol y staff ar gael yn ddwyieithog ac mae'r canllawiau'n nodi bod rhaid cynnig gwasanaeth Cymraeg pe hoffai aelod o staff gael ei adolygiad yn Gymraeg. Mae canllawiau ar gael ynghylch hyn. Mae pob neges e-bost gyffredinol hefyd yn ddwyieithog.
- At ddibenion marchnata recriwtio; mae deunydd a chynnwys ar gael yn ddwyieithog ac mae'r Swyddog Graddedig sy'n cyflawni'r gwaith yma yn siaradwr Cymraeg rhugl.
- Mae e-byst cyffredinol, posteri a thaflenni ar gyfer hyrwyddo buddion i staff, megis beicio i'r gwaith, neu gynigion o ran ffonau symudol a thechnoleg, i gyd yn ddwyieithog.

- Cynhaliwyd Asesiad manwl o'r Effaith ar y Gymraeg hefyd ar gyfer y Strategaeth AD a Chynllun Gweithlu'r Cyngor (y ddau ar gyfer 2023-28). Mae'r fersiwn diweddaraf ynghlwm, a bydd yr asesiad o'r effaith yn cael ei ddiweddarau yn rhan o'r adolygiad blynyddol o'r strategaeth a'r cynllun gweithlu.
- Mae'r garfan mewn cysylltiad rheolaidd â'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i drafod ffrydiau gwaith, ceisiadau cyfieithu a chael cyngor ac arweiniad cyffredinol ar ddilyn Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg.
- O fewn carfan Datblygu'r Gweithlu, mae un aelod o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae gan aelod arall sgiliau lefel 4.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Darparu negeseuon gloywi i garfanau sy'n dychwelyd i'r swyddfa ar y defnydd o'r Gymraeg er mwyn cydymffurfio â'r safonau.

TGCh a Gwasanaethau Digidol

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Drwy'r Strategaeth Ddigidol rydyn ni'n ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n gwbl gynhwysol o'r Gymraeg. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar ddechrau datblygiad y Strategaeth Ddigidol i sicrhau ystyriaeth gadarn o:

- Egwyddorion a gofynion [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#).

Mae'r Gwasanaeth yn darparu ei wasanaethau ac yn cydymffurfio â gofynion y Gymraeg, yn unol â'r Safonau a Mesur y Gymraeg. Rydyn ni'n darparu neu'n cefnogi'r canlynol:

- Cynnig cymorth y Ganolfan Alwadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- Cynnig cymorth Desg Wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- Cynorthwyo ysgolion Cymraeg i ddarparu TGCh;
- Cefnogi prynu systemau a meddalwedd Cymraeg;
- Mae Bwletinau Digidol a Rheoli Gwybodaeth yn ddwyieithog;
- Mae'r holl ganllawiau diogelu data a dogfennau allweddol sy'n cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog;
- Mae pob Hysbysiad Preifatrwydd Diogelu Data yn ddwyieithog;
- Troedynnau e-bost dwyieithog, negeseuon 'allan o'r swyddfa' dwyieithog;
- Cynnig offer meddalwedd cyfieithu iaith Gymraeg (Cysill) y mae modd i staff eu defnyddio os oes angen;
- Negeseuon e-bost cyffredinol i bob aelod o staff, aelodau ac ysgolion yn ddwyieithog;
- Gosod offer rhyngwyneb iaith Gymraeg drwy MS Office (Cysgeir) i holl staff y Cyngor;
- Darparu'r modd i fanteisio ar MS Office llawn trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Staff i fynychu cyrsiau Cymraeg;
- Gosod cwestiynau Cymraeg i'n proses gaffael ar gyfer tendro;
- Meddalwedd cyfieithu Cymraeg ar gael trwy gyflwyno M365;
- Gwe-ddarlledu (cyfarfodydd pwyllgor) yn darparu cyfieithu ar y pryd;
- Gwefannau a thudalennau 'sblash' dwyieithog - gwefan ddwyieithog ar gyfer yr holl wybodaeth a thrafodion;
- Ffurflenni ar-lein yn ddwyieithog;

- Wedi gweithio gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod dogfennau gofal cymdeithasol allweddol yn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn nodi dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth a'u cynhalwyr o ran defnyddio'r Gymraeg.
- Naratif Gymraeg wedi'i hychwanegu at hysbysiadau cyfarfodydd MS Teams – ar gael yn 2024

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

- Diweddarau MS Teams i ganiatáu ar gyfer y Gymraeg o fewn hysbysiadau cyfarfod

Uned Trafnidiaeth Integredig

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Mae ein trigolion yn defnyddio Gwasanaethau Trafnidiaeth, beth bynnag fo'u dewis iaith. Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod y Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio i Ddysgwyr yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau diweddaraf. Dydy'r Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae llythyrau safonol ar gyfer cynulleidfaoedd eang yn ddwyieithog ac mae amserlenni bysys wrth ochr y ffordd, yn ogystal â'r holl ddeunydd sy'n hyrwyddo gweithgareddau'r Gwasanaeth ar wefan y Cyngor, yn Gymraeg a Saesneg.

Mae pob rhiant yn cael cyfle i gyfathrebu â'r Gwasanaeth yn Gymraeg a chaiff cofnodion eu cadw. Mae tri siaradwr Cymraeg yn y Gwasanaeth gyda gwybodaeth ymarferol o Gymraeg llafar ac ysgrifenedig. Yn ystod 2023, dderbyniodd y Gwasanaeth ddim ceisiadau am ohebiaeth na galwad ffôn gan drigolion oedd yn dymuno sgwrsio yn Gymraeg. Eto, doedd dim cwynion am ddefnydd y Gwasanaeth o'r Gymraeg yn ystod y cyfnod yma.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu gostyngiad bach yn nifer y disgyblion sy'n cael eu cludo i ysgolion Cymraeg neu ysgolion dwy iaith; o 3,577 i 3,388 ym mlwyddyn academaidd 2021/22, ac o 3,388 i 3,229 ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Roedd gostyngiad o 3,299 i 3,139 ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Er hynny, mae'n ymddangos nad oes yna ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion Cymraeg neu ysgolion dwy iaith.

Paratowyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r polisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol, ac fe'i gyhoeddwyd ochr yn ochr ag adroddiad y cabinet ar wefan y Cyngor, ynghyd â dogfen ymgynghori sy'n amlinellu'r cynnig yn fanylach ac yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nododd yr ymarfer Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg cychwynnol fod modd i'r cynnig effeithio ar y Gymraeg, gan fod posibilrwydd y gallai'r pellter cerdded ychwanegol o'r cartref i'r ysgol atal rhieni rhag rhoi eu plant mewn ysgolion Cymraeg, gan ffafrio ysgolion Saesneg agosach. Mae mwy o berygl y bydd hyn yn digwydd ar lefel ysgolion cynradd. Fodd bynnag, bydd yr Asesiad yn cael ei ddiweddarau gan ddefnyddio'r adborth a dderbyniwyd ynghyd ag unrhyw ddata/gwybodaeth ychwanegol i asesu'r effaith ar y Gymraeg ymhellach, a bydd hyn yn cynorthwyo'r Cabinet i wneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar y cynnig.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Annog rhagor o staff i ddysgu Cymraeg.

Hamdden, Chwaraeon a Pharciau, gan gynnwys Gwasanaethau Profedigaethau ac Atyniadau Ymwelwyr

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Hamdden, Chwaraeon a Pharciau

Mae holl bolisiâu am y Gymraeg yn cael eu gweithredu. Mae'r holl lwyfannau digidol, arwyddion a chopïau caled marchnata yn ddwyieithog. Mae'r staff yn cael eu cefnogi i fynychu 'Cwrs Cymraeg Lefel 2' ac mae'r rhan fwyaf o staff rheng flaen a phob gweithiwr newydd wedi cwblhau 'Cwrs Cymraeg Lefel 1' yn rhan o feini prawf hanfodol y fanyleb swydd.

Mewn partneriaeth â'r Urdd mae'r gwasanaeth yn darparu gwersi nofio Cymraeg yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant a Chanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda.

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol 22-27 lle barnwyd bod yr asesiad yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Gwasanaethau Profedigaethau

Ar safleoedd Gwasanaethau Profedigaethau mae'r holl arwyddion yn ddwyieithog ac mae gwaith papur RhCT hefyd yn ddwyieithog. Serch hynny, nid yw peth o'r gwaith papur statudol (ffurflenni meddygol) yn ddwyieithog. Nid yw RhCT yn gallu newid hyn, byddai angen cael cyfarwydddeb gan Lywodraeth Cymru. Caiff gwasanaethau Cymraeg eu cynnig gan y trefnwyr angladdau.

Treftadaeth ac Atyniadau Ymwelwyr

Mae holl bolisiâu am y Gymraeg yn cael eu gweithredu. Mae'r holl lwyfannau digidol, arwyddion a chopïau marchnata caled yn ddwyieithog.

Mae'r gwasanaeth yn allweddol wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer cynnal Eisteddfod 2024 yn llwyddiannus ym Mharc Coffa Ynysangharad yn ystod haf 2024. Mae'r achlysur yn ddathliad o ddiwylliant Cymru a bydd yn gadael gwaddol yn y fwrdeistref sirol.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Hamdden, Chwaraeon a Pharciau/Gwasanaethau Profedigaethau/Treftadaeth ac Atyniadau Ymwelwyr

- Parhau i gefnogi staff i fynychu cyrsiau Cymraeg.
- Parhau i sicrhau bod yr holl bolisiâu perthnasol a Safonau'r Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith.
- Mae angen i'r Gwasanaethau Profedigaethau weithio i ganfod canolwyr meddygol sy'n siarad Cymraeg.

Yr Adran Ffyniant a Datblygu

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i

sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle trwy annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg. Yn ogystal â hyn, rhaid i staff sydd wedi cael dyrchafiad yn y gwasanaeth fynd ar gwrs Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae gyda ni 10 o siaradwyr Cymraeg rhugl gydag un arall yn cael ei gefnogi i gwblhau hyfforddiant Cymraeg Lefel 2. Mae hyn yn ddigonol ar gyfer anghenion y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael eu cynnal wrth lunio strategaethau a pholisïau newydd megis datblygu'r Strategaeth Tai Gwag. [Strategaeth Tai Gwag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Hydref 2022.docx](#) a datblygiad cynllun ECO 4 Flex [Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Eco 4 Flex 2023.docx](#) Bydd y Cynllun Eco 4 Flex yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg, bydd cyflwyno'r cynllun yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac yn hyrwyddo'n weithredol y cyfle i gyfathrebu / ymgysylltu â'r Cyngor yn Gymraeg. Rhagwelir y bydd y gwaith yma hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y gweithgareddau busnes craidd eraill y mae gosodwyr yn eu cyflawni wrth weithio yn RhCT a Chymru gyfan, drwy wella eu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen a ble i gael cymorth, gan gynnwys adnoddau hyfforddi ar gyfer eu staff eu hunain a allai fod yn awyddus i ddysgu Cymraeg. Bydd y Cynllun yn cynorthwyo rhai o'r aelwydydd mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol ac yn caniatáu iddyn nhw gysylltu â'r Cyngor yn Gymraeg o er mwyn trafod gwasanaethau cyngor a chymorth a ddarperir. Bydd modd gwneud hyn drwy'r broses ymgeisio am grant hefyd, lle byddwn ni'n sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei darparu'n ddwyieithog, ac yn hyrwyddo hyfforddiant a datblygu sgiliau Cymraeg ein staff.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymgysylltu â'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod yr elfennau lluosog o waith ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn cael eu cyfieithu fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys dogfennau ffurfiol, adroddiadau a hefyd y tudalennau gwefan presennol a'r rhai sy'n datblygu. Mae hyn hefyd yn cynnwys yr ymgynghoriadau rydyn ni'n eu cynnal. Yn ogystal â hyn, mae'r broses statudol o baratoi'r CDLI Diwygiedig yn gofyn am Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer pob cam ffurfiol o'i baratoi a'r ddogfen orffenedig. Rydyn ni'n ymgorffori elfennau o Fesur y Gymraeg a'r Ddeddf Cydraddoldeb ym mhroses asesu'r CDLI yma. Caiff hyn ei alw'n Asesiad Cynaliadwyedd Integredig.

Cyhoedduswydd Cais Cynllunio - mae hysbysiadau i'r wasg/hysbysiadau i'r wefan i gyd yn ddwyieithog, a hynny yn unol â chanllawiau polisi'r Gymraeg.

Mae taflenni agenda a chofnodion blaen y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn ddwyieithog. Mae'r gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg ar gael ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig ac ar gyfer aelodau'r cyhoedd/trydydd parti.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi derbyn ceisiadau cynllunio trwy gyfrwng y Gymraeg ac nid yw hyn wedi arwain at oedi.

Mae'r Gymraeg yn thema sydd i'w gweld drwy Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Dwristiaeth, gan gynnwys hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg a chyfieithu, annog busnesau lleol i ddefnyddio cyfarchion ac ymadroddion dwyieithog, a hyrwyddo croeso cynnes Cymreig.

Mae'r **Gwasanaeth** yn parhau i weithio'n agos ag Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, gan sicrhau bod pob elfen o'n gwaith dylunio yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae pob dogfen, cyhoeddiad a chynnwys digidol a gaiff eu paratoi gennym ni yn ddwyieithog. Rydyn ni hefyd yn cynghori meysydd gwasanaeth, rhanddeiliaid a phartneriaid allanol am eu cyfrifoldebau i fodloni'r Safonau'r Gymraeg yma.

Tystiolaeth Bellach:

[Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg](#)

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Mae angen gwella gwaith ar y cyd â sefydliadau Cymraeg gan fod cyfleoedd i nodi a datblygu prosiectau twristiaeth diwylliannol er budd ymwelwyr (PGU) a thrigolion (sgiliau).

Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

- Mae gyda ni ddysgwyr Cymraeg newydd o fewn y garfan, a thri swyddog rhugl. O fewn y Gwasanaeth Cofrestrydd mae un dysgwr a thri swyddog achlysurol rhugl (un newydd eleni): bydd y dysgwr yn gweithio ochr yn ochr â'r swyddogion rhugl mewn seremonïau i wella ei hyder. Gan fod cyflwyno'r swyddogaeth yn rhagnodol iawn, ac yn seiliedig ar sgriptiau i'w cyflwyno, mae hyn yn ei gwneud hi'n haws cyflawni'r swyddogaeth a bydd yn rhoi mwy o hyder i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau iaith newydd y tu allan i gyflwyno'r sgript.
- Mae nifer o seremonïau ac apwyntiadau cofrestru genedigaethau wedi'u cynnal yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog eleni.
- Mae taflenni corfforaethol 'Bod yn Ddwyieithog yn RhCT' yn cael eu gosod mewn pecynnau cofrestru genedigaethau ac yn cael eu harddangos yn nerbynfa swyddfa'r Cofrestrydd.
- Mae'r holl ddogfennau a fydd yn cael eu hanfon yn awtomatig o system apwyntiadau Stopford wedi'u cyfieithu, bydd y system hefyd yn cynnwys dewis iaith.
- Caiff negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol eu rhannu yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i dderbyn hyfforddiant Cymraeg. Mae 4 Swyddog yn y Garfan Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai yn mynychu cyrsiau hyfforddi ar hyn o bryd, ac mae nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl yn y garfan hefyd.
- Mae'r Garfan Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai wrthi'n diweddarau llythyrau templed safonol yn Flare i lunio fersiynau dwyieithog at ddefnydd Swyddogion.
- Anfonwyd e-bost at yr holl staff i gynnig y cyfle i fynychu dosbarthiadau Cymraeg. Mae 3 pherson o'r Garfan Bwyd ac Iechyd a Diogelwch yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau.
- Mae taflenni/cyfathrebiadau ac ati a anfonir at fasnachwyr yn ddwyieithog.
- Gwasanaeth Cymorth Iechyd y Cyhoedd CTM – mae 2 aelod o'r garfan yn siarad Cymraeg yn rhugl, yn meddu ar sgiliau ysgrifennu da ac yn gallu cyfieithu dogfennau neu frawddegau bach yn ôl yr angen. Mae aelod arall o'r garfan wedi dechrau ar gwrs Cymraeg yn ddiweddar, sydd wedi'i drefnu'n fewnol. Mae'r garfan yn effro i Safonau'r Gymraeg ac yn cydymffurfio â nhw – mae unrhyw ohebiaeth gychwynnol neu ohebiaeth sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf/cyngor i ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hanfon yn ddwyieithog gyda chymorth y garfan Gyfieithu. Mae unrhyw Adnoddau Hyfforddi a rennir yn Rhanbarthol neu'n Genedlaethol yn cael eu darparu'n ddwyieithog (gweler y ddolen yng nghwestiwn 2 i'n pecyn adnoddau hylendid dwylo).

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Parhau i gefnogi staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Gofal y Strydoedd a Gwasanaethau Gwastraff

Pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg?

Gwerthuso:

Mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg o ran dogfennau polisi, gohebiaeth a chyswllt wyneb yn wyneb (gan gynnwys ar arwyddion ac offer) a gwybodaeth i'r cyhoedd sydd ar y gwefan. Ni chafodd y gwasanaeth unrhyw gwynion gan y Comisiynydd ac ni chafodd unrhyw geisiadau am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2023. Cynorthwyodd cydweithwyr o'r gwasanaeth Gofal i Gwsmeriaid ni yn ystod y broses yma.

Cafodd yr holl ddogfennau ynghylch y casgliadau 3 wythnos ac archebion Gwastraff Gwyrdd y Gaeaf, gan gynnwys sianeli digidol, eu cyhoeddi yn ddwyieithog.

Cyflwynwyd prosiectau a ariannwyd gan grant drwy Cadw Prydain yn Daclus i fynd i'r afael â Gwm Cnoi yng nghanol trefi, gydag arwyddion dwyieithog a deunyddiau i godi ymwybyddiaeth.

Cafodd y tudalennau gwe Gwastraff hefyd eu diweddarau yn 2023 yn unol â'r newidiadau a'r ymgyrchoedd newydd. Diweddarwyd y tudalennau Cymraeg a'r rhai Saesneg ar yr un pryd.

Hysbysir staff yn ystod y cyfnod sefydlu am ein gofynion gwasanaeth o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg a bydd y gwasanaethau'n ymdrechu i barhau i annog staff sy'n dymuno dysgu'r iaith neu staff cymorth sy'n dymuno derbyn gwybodaeth yn Gymraeg.

Meysydd i'w gwella wedi'u nodi

- Cynnig hyfforddiant Cymraeg i staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd bob dydd.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Dyddiad Dyroddi: 30/09/2015

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Diwrnod Gosod
1	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	30/03/2016
2	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi - (a) cadw cofnod o ddymuniad A, (b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	30/09/2016
3	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os - (a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny;	30/09/2016

		(b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.	
4	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.	30/03/2016
5	Cyflenwi Gwasanaethau	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthy ch yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	30/03/2016
6	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	30/03/2016
7	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddatgan - (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	30/03/2016
8	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	30/03/2016
9	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg	30/03/2016

		ar gael.	
11	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny - (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	30/03/2016
12	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
13	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	30/03/2016
14	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	30/03/2016
15	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	30/03/2016
16	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	30/03/2016

17	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	30/03/2016
19	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg - (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	30/03/2016
20	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.	30/03/2016
21	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthydd yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	30/09/2016
22	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	30/03/2016
24	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth	30/03/2016

		cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	
24A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
26	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.	30/03/2016
26A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod- (a) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant unigolyn ("A") a wahoddwyd, a (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.	30/03/2016
27	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	30/03/2016
27A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	30/03/2016
27D	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n	30/03/2016

		ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	
29	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi - (a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) hysbysu'r unigolyn (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.	30/03/2016
29A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod - (a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod, (b) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, ac (c) os oes o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.	30/03/2016
30	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	30/03/2016
31	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.	30/03/2016

32	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi - (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
33	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg - (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Rhaid cydymffurfio â safon 33 ymhob amgylchiad, ac eithrio: ○ pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r cyfarfod wedi gofyn i bersonau eich hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a bod dim un person wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	30/03/2016
34	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	30/03/2016
35	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg	30/03/2016

		yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).	
36	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).	30/03/2016
37	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2016
38	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2016
41	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg - (a) agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet; (b) agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd. Rhaid cydymffurfio â safon 41 (a) ymhob amgylchiad, ac eithrio: ○ papurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yn ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet.	31/03/2017

		Rhaid cydymffurfio â safon 41 (b) ymhob amgylchiad, ac eithrio: ○ papurau eraill ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
42	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw drwydded neu dystysgrif yr ydych yn ei llunio gael ei llunio yn Gymraeg.	30/03/2016
43	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn yr ydych yn ei lunio neu ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd gael ei lunio neu ei llunio yn Gymraeg.	30/03/2016
44	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg - (a) polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol; (b) canllawiau a chodau ymarfer; (c) papurau ymgynghori.	30/09/2016
45	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw reolau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n gymwys i'r cyhoedd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
46	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn ryddhau unrhyw ddatganiad i'r wasg, rhaid ichi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid ichi ryddhau'r ddwy fersiwn ar yr un pryd.	30/03/2016
47	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg - (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.	30/03/2016
48	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai	30/03/2016

		ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	
49	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	30/03/2016
50	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	30/03/2016
50A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	30/03/2016
50B	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).	30/03/2016
51	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	30/09/2016
52	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.	31/03/2017

		Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r isod erbyn 31/03/2017 ○ gwefan gorfforaethol y corff Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r isod erbyn 31/03/2018. ○ pob gwefan arall	
55	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	30/03/2016
56	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.	30/03/2016
57	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.	30/03/2016
58	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid cydymffurfio â safon 58 mewn perthynas â'r isod erbyn 31/03/2017 ○ wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar eich prif gyfrif. Rhaid cydymffurfio â safon 58 mewn perthynas â'r isod erbyn 31/03/2018. ○ wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar bob cyfrif	31/03/2017

		arall.	
59	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	30/03/2016
60	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.	30/03/2016
61	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	30/03/2016
62	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2016
63	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	30/03/2016
64	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2016:	30/03/2016

		○ prif wasanaeth derbynfa'r corff Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 31 Mawrth 2018: ○ pob gwasanaeth derbynfa arall	
67	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	30/03/2016
68	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	30/03/2016
69	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. Rhaid cydymffurfio â safon 69 ymhob amgylchiad, ac eithrio'r isod erbyn 31 Mawrth 2017: ○ hysbysiadau traffig Rhaid cydymffurfio â safon 69 mewn perthynas â'r isod erbyn 31 Awst 2017: ○ hysbysiadau traffig	31/03/2017
70	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2016

71	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	30/03/2016
72	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	30/03/2016
72A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	30/03/2016
74	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
75	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	30/03/2016
76	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	30/03/2016

77	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	30/03/2016
77A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).	30/03/2016
79	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
80	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	30/03/2016
81	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	30/03/2016
82	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	30/03/2016
83	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016

84	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â safon 84 ymhob amgylchiad, ac eithrio: ○ pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 86 yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg.	30/03/2016
86	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.	30/03/2016
87	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	30/03/2016
88	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
89	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
90	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu	30/03/2016

		polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
91	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
92	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
93	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
94	Llunio Polisi	Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud	30/03/2016

		penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant - (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
95	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
96	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir	30/03/2016

		i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
97	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
98	Gweithredu	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd.	30/03/2016
99	Gweithredu	Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.	30/03/2016
100	Gweithredu	Rhaid ichi - (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, ddarparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.	30/09/2016
101	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn	30/09/2016

		Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	
102	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	30/09/2016
103	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	30/09/2016
104	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi - (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.	30/09/2016
105	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/09/2016
106	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/09/2016
107	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/09/2016
108	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/09/2016
109	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/09/2016

110	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/09/2016
111	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/09/2016
112	Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff - (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.	30/03/2016
112A	Gweithredu	Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff - (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	30/03/2016
114	Gweithredu	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi - (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/09/2016
115	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -	30/03/2016

		(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.	
116	Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.	30/03/2016
116A	Gweithredu	Rhaid ichi - (a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a (b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.	30/03/2016
118	Gweithredu	Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi - (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/09/2016
119	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff - (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,	30/03/2016

		(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.	
120	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	30/03/2016
122	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun hafan eich mewnwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnwyd (neu, pan fo'n berthnasol, bod hafan Gymraeg eich mewnwyd) yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnwyd.	30/03/2016
124	Gweithredu	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	30/03/2016
125	Gweithredu	Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.	30/03/2016
126	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnwyd yn Gymraeg.	30/09/2017
127	Gweithredu	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogaion.	30/03/2016
128	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg - (a) recriwtio a chyf-weld; (b) rheoli perfformiad;	30/09/2016

		(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.	
129	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn - (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.	30/09/2017
130	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith - (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.	30/03/2016
131	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.	30/03/2016
132	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu - (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru); (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.	30/03/2016
133	Gweithredu	Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	30/03/2016
134	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich	30/03/2016

		staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.	
135	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.	30/03/2016
136	Gweithredu	Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys - (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	30/03/2016
136A	Gweithredu	Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi - (a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.	30/03/2016
137	Gweithredu	Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	30/03/2016
137A	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi - (a) ffurflenni cais am swyddi; (b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;	30/03/2016

		(c) gwybodaeth am eich proses gyf-weld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; (ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.	
137B	Gweithredu	Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).	30/03/2016
139	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi - (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).	30/03/2016
140	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.	30/03/2016
141	Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei	30/03/2016

		arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	
142	Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2016
143	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	30/03/2016
144	Gweithredu	Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	30/03/2016
145	Hybu	Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).	30/09/2016
146	Hybu	Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi - (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac	30/09/2016

		wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a (b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn - (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny; (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.	
147	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	30/03/2016
148	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
149	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).	30/03/2016
150	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
151	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.	30/03/2016
152	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd	30/09/2016

		gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.	
153	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.	30/03/2016
154	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	30/03/2016
155	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
156	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r	30/03/2016

		cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
157	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer (i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
158	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi	30/03/2016

		adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
159	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
160	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
161	Atodol - Llundio Polisi	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
162	Atodol - Llundio Polisi	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael, ym mhob un o'ch	30/03/2016

		swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
163	Atodol - Llunio Polisi	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
164	Atodol - Llunio Polisi	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
165	Atodol - Llunio Polisi	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan	30/03/2016

		ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	
166	Atodol - Llunio Polisi	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
167	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
168	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrrwyd.	30/03/2016
169	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer (i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrrwyd.	30/03/2016

170	Atodol - Gweithredu	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) - (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151); (b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152); (c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152); (ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn - (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd, (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154); (d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na	30/03/2016
-----	---------------------	---	------------

		30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
171	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
172	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
173	Atodol - Hybu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -	30/09/2016
		(a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
174	Atodol - Hybu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/09/2016
175	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -	30/03/2016
		(a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
176	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r	30/03/2016

		safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.	
--	--	--	--

Meri Huws

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 30/09/2015

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

CYNLLUN ADBORTH CWSMERIAID

POLISI SYLWADAU, CANMOLIAETH A
CHWYNION

Awdur:

Jayne Thomas

Dyddiad:

17/12/2020

Dyddiad Adolygu:

17/12/2023

Cyflwyniad

Bwriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw sicrhau ei fod yn darparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer cwsmeriaid, trigolion a phobl sy'n ymweld â'r Fwrdeistref. Rydyn ni'n ymfalchïo yn y ffordd rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau ac yn y ffaith bod staff ymroddedig gyda ni. Rydyn ni'n cydnabod y gall ein gwasanaethau fethu â chyrraedd disgwyliadau ein cwsmeriaid ac y gallan nhw hefyd ragori ar eu disgwyliadau. Pan fydd hyn yn digwydd, rydyn ni am i'n trigolion, ein cwsmeriaid a'n hymwelwyr roi gwybod i ni.

A ninnau'n Gyngor, rydyn ni'n gwerthfawrogi holl adborth ein cwsmeriaid (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) ac yn defnyddio'r wybodaeth yma i wella a datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a chymunedau lleol. Mae'r polisi yma'n amlinellu proses y Cyngor ar gyfer delio â chwynion ac adborth arall gan gwsmeriaid megis canmolïaeth a sylwadau. Mae e hefyd yn egluro'r hyn rydyn ni'n ei wneud gyda'r adborth sy'n dod i law.

Y Cynllun Adborth Cwsmeriaid

Mae Rhondda Cynon Taf yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â'n trigolion i ddeall anghenion ein cymunedau yn well.

Mae'r Cynllun Adborth Cwsmeriaid yn rhoi cyfle i drigolion a phobl sy'n ymweld â Rhondda Cynon Taf ddweud wrthon ni ble rydyn ni'n llwyddo a chynnig syniadau ar gyfer gwella. Mae hefyd yn rhoi cyfle iddyn nhw gwyno os ydyn nhw'n anfodlon. Mae'r holl adborth sy'n dod i law yn cael ei ystyried ac rydyn ni'n craffu ar themâu er mwyn nodi lle mae angen gwella. Yn ogystal â hynny, mae arfer da yn cael ei amlygu ac yn cael ei rannu â phob gwasanaeth.

Mae'r wybodaeth gan gwsmeriaid yn ein galluogi i werthuso safon ein gwasanaethau hanfodol a phenderfynu lle dylen ni wella pethau.

Mae modd i chi roi adborth mewn sawl ffordd. Mae'r manylion i'w gweld isod.

Canmolïaeth a Sylwadau

Canmolïaeth

Os ydych chi wedi cael gwasanaeth da gan y Cyngor, wedi cael profiad da yn un o'n hachlysuron neu eisiau canmol aelod o'n staff am wneud gwaith da, bydd modd i chi ddefnyddio'r Cynllun Adborth Cwsmer i roi gwybod i ni am hynny.

Mae rhoi canmolïaeth yn bwysig gan fod hyn yn ein galluogi i werthuso ein gwasanaethau a chydabod staff sy'n gwneud mwy na'r disgwyl i ddarparu gwasanaeth da ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Rydyn ni'n rhannu enghreifftiau

o arfer da gyda phob adran ac yn eu hyrwyddo, ac yn defnyddio'ch adborth i ddeall yr hyn sy'n bwysig i'n cwsmeriaid.

Sylwadau

Os oes gyda chi awgrym ynghylch sut y gall y Cyngor wella neu os ydych chi eisiau rhoi sylwadau (boed yn dda neu'n ddrwg) ynghylch unrhyw agwedd ar wasanaethau'r Cyngor, mae modd i chi wneud hyn trwy'r Cynllun Adborth Cwsmeriaid. Mae'r gwasanaethau perthnasol yn ystyried pob sylw.

Mae modd i chi gyflwyno sylw neu ein canmol yn y ffyrdd yma:

- Gofyn am gopi o'n ffurflen adborth gan yr aelod o staff rydych chi mewn cysylltiad ag e'n barod.
- Codi'r ffôn: 01443 425005.
- Defnyddio'r ffurflen adborth ar ein gwefan: www.rctcbc.gov.uk
- Anfon e-bost aton ni: adborth@rhondda-cynon-taf.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr aton ni : Adborth Cwsmeriaid, Uned Cymorth i Fusnesau, Tŷ Elai, Trewiliam, Tonypany, RhCT, CF40 1NY

Er ein bod yn annog canmoliaeth a sylwadau, dydy hi ddim yn bosibl ymateb i bob un sy'n dod i law. Bydd canmoliaeth a sylwadau rydyn ni'n eu derbyn ar-lein yn cael eu cydnabod yn awtomatig ond oherwydd y nifer fawr o sylwadau eraill sy'n dod i law, fyddwn ni ddim yn ymateb i bob un. Serch hynny, bydd pob canmoliaeth a'r holl sylwadau sy'n cael eu hanfon drwy'r dulliau wedi'u nodi ar ddiwedd y polisi yma yn cael eu cofnodi a'u hystyried.

Cwynion

Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, rydyn ni'n cydnabod bod pethau'n mynd o chwith o dro i dro, a phan fydd hyn yn digwydd, rydyn ni am eu hunioni.

Bwriad Cyngor Rhondda Cynon Taf yw ymdrin ag unrhyw bryderon neu gwynion ynglŷn â'r gwasanaethau mewn modd effeithiol gan sicrhau bod y rhain yn cael eu hunioni cyn gynted ag sy'n bosibl. Os oes rhywbeth wedi mynd o chwith neu rydyn ni wedi methu â darparu gwasanaeth y mae gyda chi hawl iddo, byddwn ni'n ymddiheuro ac yn ceisio unioni pethau. Rydyn ni hefyd yn ceisio dysgu o'n camgymeriadau a defnyddio'r wybodaeth a gawn i wella ein gwasanaethau.

Er ein bod wedi ymrwymo i ddatrys cwynion, dydy hi ddim yn bosibl bob amser i gyrraedd disgwyliadau pob cwsmer. Rhaid i'r Cyngor addasu i newidiadau yn y gymdeithas, ystyried pwysau ariannol a blaenoriaethu. Gall hyn olygu bod rhaid i wasanaethau a'r ffordd rydyn ni'n eu darparu hefyd addasu i sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau wrth barhau i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid a'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Pryd y dylid defnyddio'r polisi yma

Pan fyddwch chi'n mynegi eich pryderon neu'n cyflwyno cwyn, byddwn ni fel arfer yn ymateb yn y ffordd sy'n cael ei disgrifio isod. Serch hynny, weithiau efallai bydd gyda chi hawl statudol i apelio, e.e. yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio i chi neu'r penderfyniad i beidio â rhoi lle i'ch plentyn mewn ysgol benodol, felly, yn hytrach nag ymchwilio i'ch pryder, byddwn ni'n egluro i chi sut i apelio.

Weithiau, efallai y byddwch chi'n poeni am faterion sydd y tu allan i'n hawdurdod neu am wasanaethau dydyn ni ddim yn eu darparu. Yn yr achos yma, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi ac yn darparu cyngor ynglŷn â pha sefydliad y dylech chi gysylltu ag ef.

Dydy'r polisi yma ddim yn berthnasol i gwynion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymdrinnir â'r rhain ar wahân o dan bolisi ac arweiniad gwahanol a deddfwriaeth wahanol.

Ymdrinnir â chwynion ynghylch ysgol hefyd o dan weithdrefnau ar wahân, ac yn y lle cyntaf, dylech chi fynd at Bennaeth yr ysgol dan sylw.

Mae meysydd eraill lle nad yw'r polisi yma'n berthnasol i'w gweld yn Atodiad 1.

Ydych chi wedi gofyn i ni eto?

Os ydych chi'n cysylltu â ni ynglŷn â gwasanaeth neu'n rhoi gwybod i ni am broblem am y tro cyntaf, (e.e. tynnu ein sylw at olau stryd diffygiol, bin heb ei gasglu neu geudwll) yna, dydy'r polisi yma ddim yn berthnasol. Yn y lle cyntaf, dylech chi roi cyfle inni ymateb i'ch cais ac unioni'r broblem lle bynnag y bo modd.

Os ydych chi eisoes wedi dweud wrthon ni neu wedi gofyn am wasanaeth, a naill ai dydy'r broblem ddim wedi'i datrys neu dydych chi ddim yn hapus â'n hymateb, bydd modd i chi roi gwybod i ni am eich pryder yn y ffyrdd sydd wedi'u nodi isod.

Cwyno

Mae modd i chi gyflwyno cwyn trwy'r sianeli canlynol:

- Gofyn am gopi o'n ffurflen adborth gan yr aelod o staff rydych chi mewn cysylltiad ag e'n barod. Dweud wrtho eich bod chi eisiau i ni ddelio â'r mater yn ffurfiol.
- Ein ffonio ni i gyflwyno'ch cwyn ar y rhif yma: 01443 425005.

- Defnyddio'r ffurflen adborth ar ein gwefan: www.rctcbc.gov.uk
- Anfon e-bost aton ni: adborth@rhondda-cynon-taf.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr aton ni : Adborth Cwsmeriaid, Uned Cymorth i Fusnesau, Tŷ Elai, Trewiliam, Tonypandy, RhCT, CF40 1NY

Ymweld ag un o'n Canolfannau IBobUn yn Aberdâr, Aberpennar, Y Porth, Pontypridd neu Dreorci. Ein nod ni yw i ffurflenni cwyno fod ar gael ym mhob un o'n derbynfeydd, llyfrgelloedd ac adeiladau eraill y Cyngor. Bydd y polisi yma a ffurflenni cwyno ar gael ar gais mewn ieithoedd eraill, yn glywedol, mewn print bras a Braille.

Ymdrin â'ch cwyn

- Byddwn ni'n cydnabod eich cwyn yn ffurfiol cyn pen 5 diwrnod gwaith a rhoi gwybod ichi sut rydyn ni'n bwriadu ymdrin ag ef.
- Byddwn ni'n gofyn ichi ddweud wrthon ni sut yr hoffech i ni gyfathrebu â chi ac a oes gyda chi unrhyw ofynion penodol – er enghraifft, os oes gyda chi anabledd fel nam ar eich clyw neu'ch golwg.
- Byddwn ni'n delio â'ch cwyn mewn ffordd agored a onest.
- Byddwn ni'n sicrhau na fydd eich cysylltiadau â ni yn y dyfodol yn dioddef dim ond oherwydd eich bod chi wedi mynegi pryder neu wedi cyflwyno cwyn.

Fel rheol, bydd modd i ni edrych ar eich pryderon dim ond os ydych chi'n dweud wrthon ni amdany'n nhw cyn pen 6 mis. Mae hyn oherwydd ei bod hi'n well ymchwilio i'ch pryderon tra bod y materion yn dal i fod yn ffres ym meddwl pawb.

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y gwnawn ni edrych ar faterion a ddaeth i law yn hwyrach na hyn. Serch hynny, bydd rhaid i chi roi rhesymau cadarn inni pam nad ydych chi wedi gallu dwyn ein sylw at y broblem yn gynharach a bydd angen i ni gael digon o wybodaeth am y mater er mwyn caniatáu inni ei ystyried yn iawn. (Beth bynnag, waeth beth fo'r amgylchiadau, fyddwn ni ddim yn ystyried unrhyw bryderon am faterion a ddigwyddodd yn fwy na 12 mis yn ôl.)

Mae dau gam i weithdrefn cwyno'r Cyngor:

- **Cwyn Cam 1** (y cyfeirir ati hefyd fel datrysiad anffurfiol) yw'r ffordd gyflymaf ac yn aml fwyaf effeithiol o ymdrin â'ch cwyn. Oni bai fod cwyn o natur ddifrifol iawn, rydyn ni'n disgwyl ymdrin â phob cwyn ar Gam 1 yn y lle cyntaf.
- Bydd **Cwyn Cam 2** yn eich galluogi i ddwysáu'r mater os ydych chi'n anfodlon ar y canlyniad ar Gam 1. Bydd uwch swyddog y Cyngor yn delio â'ch cwyn Cam Dau sydd ddim o reidrwydd yn rhan o'r gwasanaeth dan sylw.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddwysáu materion difrifol yn syth i Gam 2 os yw o'r farn bod hyn yn angenrheidiol ar sail natur a difrifoldeb y gŵyn sydd wedi'i chyflwyno.

Cam 1 (Datrysiaid Anffurfiol)

Lle bynnag y bo modd, rydyn ni o'r farn ei bod hi'n well ymdrin â materion ar unwaith yn hytrach na cheisio eu datrys yn nes ymlaen. Os oes pryder gyda chi, codwch ef gyda'r swyddog neu'r gwasanaeth rydych chi'n delio ag ef (neu wedi bod yn delio ag ef). Os yw'n bosibl, efallai bydd modd iddo ddatrys y mater i chi yn y fan a'r lle.

Os nad yw hyn yn bosibl a bod angen ymchwilio ymhellach i'r mater, bydd y gwasanaeth perthnasol yn edrych ar y gŵyn ac yn darparu ymateb lle bynnag y bo modd o fewn 10 diwrnod gwaith. Ar gyfer rhai cwynion mwy cymhleth, gall hyn gymryd mwy o amser, ond ein nod yw rhoi ymateb i'r rhan fwyaf o gwynion cyn pen 20 diwrnod gwaith fan bellaf.

Fel safon ofynnol, rydyn ni'n disgwyl i'r ymateb gynnwys y canlynol:

- Ymddiheuriad lle bo hynny'n briodol
- Cyngor ynghylch pa gamau sydd i'w cymryd i unioni pethau
- Gwybodaeth am unrhyw wersi sydd wedi'u dysgu a;
- Gwybodaeth am yr hyn y dylech chi ei wneud os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon.

Cam 2 (Datrysiaid Ffurfiol)

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon ar yr ymateb i'ch cwyn ar Gam 1, ac rydyn ni wedi methu â datrys y broblem, cewch chi ofyn i'ch cwyn gael ei hystyried ar Gam 2.

Fydd dim modd ystyried cwynion sydd wedi dilyn Polisiâu'r Cyngor ac/neu sy'n seiliedig ar benderfyniadau a wnaed yn briodol ar Gam 2. Cewch chi, fodd bynnag, ddwysáu'ch cwyn i Gam 2 o'r broses yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r gwasanaeth perthnasol wedi cael cyfle digonol i fynd i'r afael â'ch cwyn ond dydy e ddim wedi rhoi ymateb i chi yn unol â gofynion Cam 1.
- Rydych chi o'r farn nad yw'ch cwyn wedi cael ystyriaeth ddigonol neu briodol neu fod y canlyniad yn seiliedig ar wybodaeth neu ffeithiau anghywir.

- Dydy'r ymateb ddim wedi ymdrin â phob mater sy'n rhan o'ch cwyn.
- Mae'r ymchwiliad wedi methu ag ystyried deddfwriaeth berthnasol a'ch hawliau unigol o dan ddeddfwriaeth o'r fath, er enghraifft, y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Bydd gofyn i chi roi esboniad manwl o'r rheswm rydych chi'n o'r farn na chafodd eich cwyn y sylw priodol ar Gam 1, ynghyd â'r canlyniad byddech chi'n ei hoffi.

Ambell waith, gall fod angen egluro materion cwyno penodol, er enghraifft, lle bo cwynion ysgrifenedig yn hir, yn amhenodol, neu wedi cael eu derbyn dros y ffôn a'u nodi ond sydd angen eglurhad pellach. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Swyddog Ymchwilio yn cysylltu â chi gyda chrynodeb o'r gŵyn fel mae e'n ei gweld hi, er mwyn cytuno ar y manylion neu'u hegluro cyn yr ymchwiliad.

Pe baech chi'n methu ag ymateb a chytuno ar faterion neu'u hegluro cyn pen 28 diwrnod, byddai'r gŵyn yn cael ei chau a llythyr yn cael ei anfon atoch chi yn dweud felly.

Ymdrin â'ch Cwyn Cam 2

Byddwn ni'n cydnabod eich cwyn yn swyddogol o fewn 5 niwrnod gwaith ac fel arfer, yn cysylltu â chi yn yr un modd ag y cysylltoch chi â ni. Er enghraifft, os cwynoch chi trwy e-bost yn Gymraeg, byddwn ni'n ymateb trwy e-bost yn Gymraeg hefyd, oni bai i chi ddweud wrthon ni fod gyda chi anghenion gwahanol.

Ar ôl ei derbyn, bydd Cydlynnydd Cwynion sy'n rhan o'r gwasanaeth mae'ch cwyn yn ymwneud ag ef yn ymdrin â hi. Bydd y cydlynnydd yn penodi uwch swyddog o'r un gwasanaeth (fel arfer) i gynnal ymchwiliad.

Bydd y Swyddog Ymchwilio yn adolygu'r wybodaeth wedi'i darparu ar Gam 1 ac efallai yn cysylltu â chi i gael eglurhad ac i drafod y canlyniad yr hoffech chi'i gael. Gall y swyddog yma hefyd drafod y sefyllfa gyda staff y Cyngor. Ar gyfer rhai cwynion, efallai bydd angen iddo edrych ar wybodaeth sydd gan y Cyngor amdanoch chi.

Os nad ydych chi'n fodlon i'r Swyddog Ymchwilio edrych ar yr wybodaeth sydd gyda ni amdanoch chi, dylech chi roi gwybod i ni wrth gyflwyno'r gŵyn. Mae'n bosibl y gall gwrthod rhoi caniatâd i ni edrych ar yr wybodaeth sydd gyda ni amdanoch chi olygu nad oes modd i ni barhau i ymchwilio i rai o'r materion rydych chi wedi'u codi (neu'r materion i gyd).

Ein bwriad yw sicrhau ein bod ni'n datrys y broblem lle bynnag y bo modd. Os oes modd i'r swyddog sy'n ystyried eich cwyn ddod o hyd i ddatrysiad syml, mae'n bosibl y bydd yn cysylltu â chi i drafod hyn, gan geisio dod i gytundeb yn hytrach na bwrw ymlaen gydag ymchwiliad.

Ein nod yw ymdrin â chwynion cyn gynted â phosibl ac ymdrin â'r mwyafrif helaeth ar Gam 2 o fewn 20 diwrnod gwaith. Gyda chwynion mwy cymhleth a/neu gwynion sy'n cynnwys mwy nag un gwasanaeth, gall gymryd mwy o amser i gynnal ymchwiliad llawn a thrylwyr. Yn yr achos yma, byddwn ni'n cysylltu â chi i gytuno ar amserlen ddiwygiedig na ddylai fod yn hwy na 3 mis ar ôl dyddiad eich cwyn wreiddiol.

Ar ôl cwblhau'ch cwyn, byddwn ni'n rhoi ymateb ysgrifenedig ffurfiol i chi sy'n manylu ar ein canfyddiadau ac yn egluro sut y daethon ni i'n casgliadau. Lle rydyn ni wedi gwneud camgymeriadau, byddwn ni'n eu derbyn, a byddwn ni bob amser yn ymddiheuro lle mae'n briodol gwneud hynny. Os byddwn ni'n nodi methiannau yn rhan o'r ymchwiliad i'ch cwyn, byddwn ni'n esbonio sut rydyn ni'n bwriadu unioni pethau a/neu wella'n gwasanaeth i atal digwyddiad tebyg yn y dyfodol.

Unioni Pethau

Os na ddarparon ni wasanaeth y dylech chi fod wedi'i gael, byddwn ni'n ceisio ei ddarparu os yw hynny'n bosibl. Os na wnaethon ni rywbeth yn iawn, ein nod ni fydd ei unioni.

Os ydych wedi colli allan o ganlyniad i gamgymeriad ar ein rhan ni, byddwn ni'n ceisio eich rhoi chi yn ôl yn y sefyllfa y byddech chi wedi bod ynddi, pe bydden ni wedi cael y mater yn iawn.

Os ydych chi wedi gorfod talu am wasanaeth eich hun, hynny yw, gwasanaeth y dylen ni fod wedi'i ddarparu ar eich cyfer chi, neu os oedd gyda chi hawl i gael cyllid na chawsoch chi, byddwn ni fel arfer yn gwneud iawn am yr hyn rydych chi wedi'i golli.

Pan fydd mwy nag un sefydliad yn rhan o'r gŵyn

Os yw'ch cwyn yn ymwneud â mwy nag un sefydliad, e.e. Cyngor Rhondda Cynon Taf a Heddlu De Cymru, byddwn ni fel arfer yn gweithio gyda nhw i benderfynu pwy ddylai arwain wrth ddelio â'r mater. Yna byddwch chi'n cael eich hysbysu o'r swyddog sy'n gyfrifol am gyfathrebu â chi tra mae eich cwyn yn cael ei hystyried.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â chorff sy'n gweithio ar ein rhan, er enghraifft, cwmni arbenigol sydd wedi'i contractio gan yr Awdurdod, efallai yr hoffech chi godi'r mater gyda nhw yn gyntaf. Serch hynny, os ydych chi eisiau codi'r mater gyda ni yn ffurfiol, byddwn ni'n ymchwilio i'r gŵyn ac yn ymateb i chi.

Cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg

Safonau'r Gymraeg a Chydymffurfio

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Cafodd hyn ei orfodi trwy is-ddeddfwriaeth (Safonau'r Gymraeg). Mae'r safonau sydd wedi'u gosod ar Gyngor Rhondda Cynon Taf wedi'u nodi yn y ddogfen 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Mae ein holl safonau, gan gynnwys Cyflenwi Gwasanaethau, Lluio Polisi a Safonau Gweithredol ar gael ar-lein yma:

www.rctcbc.gov.uk/GwasanaethauCymraeg neu yn unrhyw un o'n canolfannau derbyn.

Bydd cwynion neu bryderon ynghylch yr iaith Gymraeg yn dilyn yr amserlenni a'r camau sy'n cael eu nodi ym mholisi'r Cyngor. Fel y mae'r polisi yma eisoes wedi cyfeirio ato, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y swyddogion ymchwilio yn ymgynghori ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol cyn penderfynu a yw'r awdurdod neu'r gwasanaeth wedi gweithredu yn unol â gofynion deddfwriaethol neu'n unol â pholisïau a gweithdrefnau cymeradwy.

Mae swyddogion wedi cael hyfforddiant ynglŷn â Safonau'r Gymraeg ac felly yn effro iddyn nhw. Maen nhw hefyd wedi cael sesiynau gwybodaeth am y Polisi Cwynion a Phryderon yma hefyd. Bydd swyddogion yn dilyn y dull corfforaethol yma wrth ddelio â chwyn yn ymwneud â'r Gymraeg a'n Safonau ac yn gallu ymgynghori â Swyddog Cydymffurfio a Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg yr awdurdod i gael rhagor o wybodaeth.

Os ydych chi o'r farn nad yw'r gŵyn wedi'i datrys yn foddhaol neu fod rhywun yn ymyrryd â'ch rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, cewch chi gwyno'n uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae modd cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg:

- drwy'r godi'r ffôn: 0845 6033221
- drwy anfon e-bost: post@comisiynyddygymraeg.org
- drwy ysgrifennu at: Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1AT
- Fel arall, galwch i mewn i unrhyw un o'n canolfannau derbyn sydd â chopi o Ganllaw'r Comisiynydd ar gyfer gwneud cwyn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Os na fyddwn ni'n llwyddo i ddatrys eich cwyn, cewch gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar bob corff cyhoeddus ac mae modd iddo ymchwilio i'ch cwyn os ydych chi o'r farn eich bod chi'n bersonol, neu'r person rydych chi'n cwyno ar ei ran:

- wedi cael triniaeth annheg neu wasanaeth gwael o ganlyniad i fethiant gan y corff a oedd yn ei ddarparu.
- wedi bod o dan anfantais bersonol oherwydd methiant gwasanaeth, neu wedi cael eich trin yn annheg.

Mae modd cysylltu â'r Ombwdsmon:

- drwy godi'r ffôn: 0300 790 0203
- drwy anfon e-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
- drwy ysgrifennu at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae,
Pen-coed
CF35 5LJ

Dysgu Gwersi

Rydyn ni'n cymryd cwynion o ddifrif ac yn ceisio dysgu o unrhyw gamgymeriadau rydyn ni wedi'u gwneud. Mae'r holl welliannau gwasanaeth sy'n digwydd yn sgil cwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro gan y Garfan Adborth ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid a bydd enghreifftiau o'r rhain ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

Bydd ein Carfan Rheoli Corfforaethol a'n Cabinet yn ystyried crynodeb bob 6 mis o'r holl gwynion sy'n dod i law, ynghyd â manylion unrhyw gwynion difrifol gydag argymhellion lle mae gwelliannau gwasanaeth wedi'u nodi.

Cymorth Pellach

Os ydych chi'n delio ag aelod o staff y Cyngor, bydd modd iddo eich helpu chi i roi gwybod i ni am eich cwyn. Os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch chi, byddwn ni'n ceisio'ch rhoi chi mewn cysylltiad â rhywun a all helpu.

Pobl Hŷn

Os ydych chi dros 60 oed, mae modd i chithau gael help gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Dyma'r manylion cyswllt:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
Adeiladau Cambrian,
Sgwâr Mount Stuart,
Butetown,
Caerdydd
CF10 5FL

Rhif Ffôn: 02920 445 030 (cyfradd leol) neu 08442 640 670 (cyfradd safonol). Rhif Ffacs: 08442 640 680.

Plant a Phobl Ifainc

Os ydych chi o dan 18 oed, bydd modd i chi gael cyngor a chymorth os ydych chi'n dal yn anhapus neu angen cymorth pellach gan Gomisiynydd Plant Cymru. Dyma'r manylion cyswllt:

01792 765600 (De Cymru)
01492 523333 (Gogledd Cymru)

post@complantcymru.org.uk
www.complantcymru.org.uk/cy/cysyllta/

Swyddfa De Cymru:
Tŷ Ystumllwynarth
Ffordd y Ffenics
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FS

Swyddfa Gogledd Cymru:
Penrhos Manor
Oak Drive
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7YW

Beth rydyn ni'n disgwyl gennych chi wrth i ni ddelio â'ch cwyn

Rydyn ni'n derbyn y gall pobl ymddwyn yn groes i'w gymeriad wrth wynebu amseroedd trafferthus. Mae'n bosibl bod digwyddiadau cynhyrfus neu drallodus wedi blaenori'r gŵyn. Dydy ymddygiad felly ddim yn cael ei ystyried yn annerbyniol dim ond oherwydd ei fod e'n rymus neu'n benderfynol.

Rydyn ni o'r farn bod hawl gyda chi i gael eich clywed, eich deall a'ch parchu. Serch hynny, rydyn ni hefyd o'r farn bod gan ein staff yr un hawliau ac felly'n disgwyl i chi fod yn gwrtais wrth ddelio â ni. Fyddwn ni ddim yn goddef ymddygiad ymosodol neu sarhaus, na gweithredoedd, gofynion neu ddyfalbarhad afresymol.

Byddwn ni'n galw ein polisi Cwsmeriaid Afresymol o Ddi-baid i rym i reoli sefyllfaoedd pan fydd ymddygiad unigolyn mewn perthynas â'i gŵyn yn

afresymol neu annerbyniol yn ein barn ni, neu pan fydd natur/amlder ei gyswllt yn cymryd amser anghymesur.

ATODIAD A

Ffurflen Cwynion/Pryderon

A: Eich manylion

Cyfenw	Enw(au) cyntaf:	Teitl: Mr/Mrs/Miss/Ms/ Arall (Nodwch):
Cyfeiriad a chod post: (er mwyn derbyn llythyr trwy'r post)		
Eich cyfeiriad e-bost:		
Rhif ffôn yn ystod y dydd:		
Rhif ffôn symudol:		

Dywedwch ym mha ffordd byddai'n well gyda chi i ni gysylltu â chi.

Eich gofynion

Os yw'n ffordd arferol ni o ddelio â chwynion yn ei gwneud hi'n anodd i chi ddefnyddio ein gwasanaeth, er enghraifft, os nad Cymraeg neu Saesneg yw'ch iaith gyntaf chi, neu'ch bod chi angen cysylltu â ni mewn modd penodol, er enghraifft, oherwydd bod nam ar eich golwg a bod yn well gyda chi ddefnyddio 'daisy disc', rhowch wybod i ni fel y gallwn ni gadarnhau'r ffordd fwyaf cyfleus o gysylltu â'n gilydd.

Y person sydd â'r gŵyn neu'r pryder a ddylai lenwi'r ffurflen yma fel arfer. Serch hynny, os ydych chi'n ei llenwi ar ran rhywun arall, llenwch adran B, isod, hefyd. Cyn bwrw ymlaen â'r gŵyn, bydd angen i ni fod yn fodlon eich bod chi â'r awdurdod i weithredu ar ran y person dan sylw.

B: Cyflwyno pryder neu gŵyn ar ran rhywun arall: *Manylion y person*

Enw llawn y person:	
Cyfeiriad a chod post:	
Beth yw'ch perthynas â'r person?	

Pam rydych chi'n gweithredu ar ran y person?	
--	--

C: Manylion eich cwyn/pryder — parhewch eich atebion ar ddalennau ychwanegol os bydd angen.

C.1 Yr adran/isadran/gwasanaeth rydych chi'n cwyno amdani/amdano:

C.2 Yn eich barn chi, beth wnaethon nhw o'i le neu y methon nhw â'i wneud?

C.3 Ym mha ffordd rydych chi wedi dioddef yn bersonol neu wedi cael eich effeithio'n anffafriol?

C.4 Yn eich barn chi, beth ddylen ni'i wneud i gywiro'r sefyllfa?

C.5 Pryd daeth y broblem i'ch sylw am y tro cyntaf?

C.6 Ydych chi eisoes wedi cyflwyno'ch cwyn/pryder i aelod o staff rheng flaen sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth? Os felly, rhowch fanylion bras o sut a phryd y gwnaethoch chi hynny.

C.7 Os oes mwy na 12 mis wedi mynd heibio ers i chi ddod i wybod am y broblem, dywedwch pam na wnaethoch chi gwyno cyn hyn.

Os oes gyda chi ddogfennau sy'n cefnogi'ch cwyn/pryder, atodwch nhw i'r ffurflen yma.

Llofnod:.....

Dyddiad:.....

Unwaith i chi gwblhau'r ffurflen yma, anfonwch hi i'r cyfeiriad yma:

Adborth Cwsmeriaid d/o Uned Cymorth i Fusnesau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Tŷ Elái

Trewiliam

Tonypandy

CF40 1NY

Neu anfonwch gopi trwy e-bost: adborth@rhondda-cynon-taf.gov.uk

ATODIAD B

Meysydd lle nad yw'r polisi yma'n berthnasol:

- Honiadau o weithgaredd troseddol
- Arferion Gweithio Cymeradwy
- Cwynion am Gyngorwyr
- Polisiâu'r Cyngor
- Materion Treth y Cyngor
- Penderfynu ar yr hawl i gael budd-dal tai
- Materion yn ymwneud â gwaith
- Materion Rhyddid Gwybodaeth
- Materion Digartrefedd
- Hawliadau cyfraith ac yswiriant
- Hysbysiadau Tramgwydd Parcio
- Penderfynu ar geisiadau cynllunio
- Materion Ysgol
- Cwynion gan wasanaethau wedi'u caffael